# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 9FED TACHWEDD, 2023**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon ac yn rhithiol ar Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 1/11/23)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jina Gwyrfai | Iwan Huws |
| Dawn Lynne Jones | Dewi Jones |
| Gareth Tudor Jones | Olaf Cai Larsen |
| Gwynfor Owen | Llio Elenid Owen |
| Huw Rowlands | Paul John Rowlinson |
| Rhys Tudur | Sasha Williams |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Gwilym Jones |
| Beth Lawton | Dewi Owen |
| John Pughe Roberts | Richard Glyn Roberts |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| [sedd wag] | Eglwys yng Nghymru |
| Colette Owen | Yr Eglwys Gatholig |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| Manon Williams | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elise Poulter | NEU |
| Gwilym Jones | NASUWT |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 5 - 19

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2023 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD ESTYN AR WASANAETHAU ADDYSG YNG NGHYNGOR GWYNEDD — 20 - 47

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Beca Brown**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

## 6. CWMNI BYW'N IACH — 48 - 53

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

## 7. RHEOLAETH TRAETHAU GWYNEDD — 54 - 63

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Cyflwyno adroddiad ar yr uchod.

## 8. GRWP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH — 64 - 66

Ethol dau aelod i wasanaethu ar y Grwp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth.

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**14/09/23**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Jones (Cadeirydd)
Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr**:- Jina Gwyrfai, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Gwynfor Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Rhys Tudur a Sasha Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) ac Elise Poulter (NEU).

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol), Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd) a Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:-** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Cynorthwyol: Cynradd) a Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:-** Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Ffion Ellis Edwards (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad) ac Ellen Rowlands (Rheolwr Cynhwysiad Adran Addysg).

Croesawyd Elise Poulter, NEU, fel cynrychiolydd newydd yr undebau athrawon ar y pwyllgor.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Iwan Huws a Llio Elenid Owen, a hefyd Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUN DIGIDOL – 2023-28**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Cyllid, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn cyflwyno'r Cynllun Digidol yn ei ffurf drafft i bwrpas blaen-graffu, ac i dderbyn sylwadau ac adborth ar gynnwys arfaethedig y rhaglen waith.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol a manylodd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth ymhellach ar gynnwys y cynllun. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd mai un o argymhellion adroddiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan yn ddiweddar, yn sgil edrych ar y sefyllfa dlodi yn ardal Arfon yn benodol, oedd y dylai Cyngor Gwynedd sicrhau bod yr holl ffurflenni cais am grantiau a lwfansau y mae ganddo bwerau gweinyddol drostynt fod ar gael yn ddigidol. Nodwyd ei bod yn amlwg o'r gwaith ymchwil hwn, a hefyd o siarad â phobl sy'n wynebu tlodi a'r gwahanol gyrff sy'n eu cefnogi, bod hyn yn broblem, a holwyd a oedd yna gynlluniau i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cynnig mwy o ddarpariaeth ddigidol yn rhan o'r Cynllun, ond nad oedd bwriad i wneud i ffwrdd â'r opsiwn o ddefnyddio ffurflenni papur chwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhawyd y byddai'r ffurflenni yn rhai digidol ar-lein, yn hytrach nag yn ddogfennau i'w llawrlwytho.

Gan dderbyn y byddai costau cychwynnol sefydlu'r trefniadau newydd yn uchel, holwyd a oedd yr Adran yn ffyddiog y byddai'r systemau newydd yn arbed arian dros amser. Holwyd hefyd a oedd yr Adran yn fodlon bod pob agwedd o'r digideiddio yn hanfodol, ac nad oedd yna elfennau wedi'u cynnwys am resymau cosmetig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na chynhwyswyd unrhyw beth cosmetig ac y canolbwyntiwyd ar y pethau sy'n hanfodol ac a fydd yn gwella'r Cyngor wedi iddynt gael eu gwreiddio.
- Y byddai yna waith sylweddol yn digwydd dros y 6 wythnos nesaf i adnabod, nid yn unig y costau, ond y cyfleoedd i wneud arbedion hefyd.

Cyfeiriwyd at lythyr a anfonwyd allan gan y Cyngor yn ddiweddar oedd yn cynnig i bobl ymateb drwy fynd ar y wefan, ffonio neu decstio, a mynegwyd pryder bod yr ychydig bobl hynny sydd heb gyfrifiadur na ffôn yn cael eu gadael ar ôl. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y swyddogion angen gwybod am yr enghreifftiau hynny, ond nad oedd y dechnoleg ddigidol yn cael ei chyflwyno ar draul y sianelau eraill, a'r bwriad oedd peidio gadael neb ar ôl.
- Ei bod yn bwysig cydnabod bod yna bobl sydd angen y sgwrs wyneb yn wyneb o hyd, ac er bod y Cyngor yn dymuno i gymaint â phosib' o bobl ddefnyddio'r dulliau digidol, nid oedd wedi cau'r elfen bapur, na'r elfen wyneb yn wyneb, i ffwrdd yn llwyr.

Awgrymwyd bod technoleg ddigidol yn cynyddu'r pellter rhwng y ddau berson sy'n cyfathrebu â'i gilydd. Roedd peryg' o golli golwg ar bethau cig a gwaed wrth i'r datblygiadau yma fynd rhagddynt, ac roedd modd i ddiffyg cydymdeimlad a diffyg dealltwriaeth ffynnu oherwydd y pellter yma. Mewn ymateb, nodwyd y cydnabyddid y sylw a bod hyn yn rhywbeth i'w ystyried.

Nodwyd bod yr aelodau'n colli'r cyswllt wyneb yn wyneb â staff y Cyngor ers y cyfnod Cofid, ac o fynd ymhellach i lawr y ffordd honno, roedd peryg' y byddai atebolrwydd y Cyngor i'r aelodau, ac yn y pen draw i'w hetholwyr, yn mynd ymhellach i ffwrdd hefyd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y bwriedid cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar 19 Medi ar sefydlu Cynllun Gweithio'n Hybrid hirdymor i staff y Cyngor fyddai'n golygu y byddai disgwyl i bob swyddog sy'n gallu gweithio'n hybrid bresenoli eu hunain yn y swyddfa hefo'u cydweithwyr am o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos, bob wythnos waith.
- Y dymunid pwysleisio mai lleiafswm o 2 ddiwrnod oedd hyn, ac na olygai na fyddai pobl ond yn y swyddfa am 2 ddiwrnod yn unig.
- Y byddai hyn yn fodd o barhau i gefnogi a chael y gorau o'r staff er mwyn rhoi'r gwasanaethau gorau bosib' i bobl Gwynedd.

Nodwyd, petai bwriad gan y Cyngor i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, ei bod yn bwysig bod yr aelodau yn derbyn hyfforddiant yn egluro beth yn union ydyw, a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio. Mewn ymateb, nodwyd bod lle i addysgu pobl am hyn, ond na fyddai'r Cyngor yn rhuthro i mewn i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, ac y byddai unrhyw ddefnydd o'r dechnoleg yn cael ei wneud mewn ffordd gyfrifol.

Nododd cynrychiolydd yr undebau athrawon fod Cyngres yr Undebau Llafur wedi trafod deallusrwydd artiffisial yn y gweithle yn ddiweddar ac y gallai rannu'r dogfennau perthnasol, sy'n cynnwys safiad yr undebau llafur ar hyn, gyda'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r swyddogion yn croesawu'r wybodaeth ac y byddai'n gyfraniad pwysig i unrhyw drafodaeth i'r dyfodol.

Croesawyd y bwriad i greu systemau o'r newydd, yn hytrach na cheisio adeiladu ar systemau sy'n bodoli eisoes, ond, er sicrhau cydweithio effeithiol, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod systemau'r Cyngor yn gallu gweithio gyda'r systemau a ddefnyddir gan gyrff eraill megis y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Tân ac Achub a'r cynghorau sir eraill. Mewn ymateb, nodwyd na allai Cyngor Gwynedd wneud hyn ar ei ben ei hun, ac fel y nodir yn y Cynllun, bydd y Cyngor yn bartner bodlon a pharod i gefnogi mesurau a mentrau i ddiddymu rhwystrau digidol i alluogi cydweithio â phartneriaid strategol, fydd yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, cynghorau cyfagos a'r trydydd sector, ayb.

Holwyd a oedd gan y Cyngor raglen i hyfforddi pobl ar ddefnyddio cyfrifiaduron a thabledi. Mewn ymateb, nodwyd bod paragraff 9 o dan maes blaenoriaeth 'Gweinyddiaeth a Systemau Busnes' yn nodi y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi Partneriaeth Sgiliau Rhanbarth Gogledd Cymru i wella sgiliau digidol yn y Sir, yn ogystal â'r rhaglenni gwella sy'n rhan o ymgyrch y rhaglen Gwynedd Ddigidol i gynyddu cynhwysiad digidol. Fodd bynnag, efallai bod angen rhoi mwy o bwyslais ar y ffaith bod y rhaglen Gwynedd Ddigidol yn mynd allan i'r gymuned i gyflwyno hyfforddiant i ddefnyddwyr.

Holwyd a fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ymateb yn ddigon cyflym petai yna ddatblygiadau newydd yn dod ar y farchnad dros gyfnod y Cynllun Digidol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y llwyr gytunid bod angen bod yn effro i ddatblygiadau newydd yn y maes digidol, gan hyd yn oed ail-ymweld â'r blaenoriaethau o fewn oes y Cynllun.
- Bod bwriad hefyd i wneud gwaith o ran gwella'r ffordd mae pobl yn meddwl yn ddigidol, sy'n golygu bod modd gwreiddio datblygiadau digidol ynghynt yn y Cyngor nag sy'n bosib' ar hyn o bryd.
- Y bydd y Cyngor mewn sefyllfa lle bydd modd addasu i ba bynnag gyfrwng cymdeithasol fydd mewn lle yn y dyfodol.

Dymunwyd y gorau i'r Bwrdd Trawsnewid Digidol yn ei waith a chroesawyd y nod o '*lunio llwybr beiddgar ar ein taith i ddod yn Sir ddigidol*' a '*manteisio ar gyfleoedd i arloesi ac i wreiddio technoleg ddigidol i wella safon byw ein trigolion, cydweithio yn well a phartneriaid a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid".* Cyfeiriwyd at y rhestr yn yr adroddiad o benawdau allweddol wrth anelu at gyngor digidol, a nodwyd mai'r cyntaf a'r pwysicaf oll oedd '*Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol*'. Nodwyd ymhellach bod yr adroddiad yn cydnabod bod cysylltu â'r Cyngor â ffôn yn parhau'n ddewis poblogaidd ymysg cwsmeriaid, a chanmolwyd y Cyngor yn gyffredinol am ymateb i alwadau ffôn. Nodwyd bod yr Adran TG eu hunain yn arwain o ran hynny a bod eu dull hynod o effeithiol ac effeithlon o weithredu yn batrwm i weddill yr adrannau.

Diolchwyd i'r aelod am ei eiriau caredig, a nodwyd y byddai'r genadwri yn mynd yn ôl at staff y Gwasanaeth.

Holwyd beth oedd yr amserlen o ran sefydlu is-grŵp i weithredu ar ddatblygiadau digidol yn y maes gweithlu. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Er nad oedd yr is-grŵp wedi'i sefydlu eto, bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr hyn y byddai angen i'r is-grŵp arwain arno maes o law yn mynd rhagddo'n barod.
- Bod y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn rhan allweddol o hynny, a byddai angen cyfraniadau gan bobl eraill hefyd, oedd wedi'u hadnabod eisoes.
- Er nad oedd y grŵp wedi'i sefydlu eto, byddai hynny'n digwydd o fewn y mis neu ddau nesaf yn sicr.

Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r bwriad i greu warws data, nodwyd:-

- Bod gan y Cyngor tua 300 o systemau ar hyn o bryd, sy'n casglu pob math o wahanol wybodaeth.
- Bod mwyafrif y systemau yn cyfarch rhai pethau sy'n gyffredin ar draws bob dim, megis enwau a chyfeiriadau, a po fwyaf o systemau sydd gennym, pellach mae cywirdeb y data yn gallu mynd.
- Y byddai'r warws data yn gyfrwng, nid yn unig i fedru adrodd ohono, ond hefyd yn gyfrwng i lanhau a bod yn fwy cywir o ran y data hefyd.
- Y byddai'r adnodd hefyd yn rhoi mwy o drosolwg ar draws gwasanaethau'r Cyngor, felly yn hytrach na chael adroddiad unllygeidiog o un system, byddai'n galluogi edrych ar ystod o wasanaethau a thueddiadau o ran defnyddwyr y gwasanaeth ar draws nifer o wasanaethau.
- Y byddai hynny'n gosod y Cyngor mewn lle i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a medru darogan sut orau i siapio'r gwasanaethau i'r dyfodol.

Croesawyd y bwriad i gael system lle bydd modd i gwsmer godi ymholiad a derbyn diweddariadau cyson ar lle mae'r Cyngor arni o ran ymdrin â'r ymholiad hwnnw, a nodwyd y mawr obeithid y byddai'r un system dracio ymholiadau ar gael ar gyfer cynghorwyr hefyd. Mewn ymateb, nodwyd y derbynnid y sylw'n llwyr ac y byddai'r swyddogion yn gwneud nodyn ohono.

Ar ddiwedd y drafodaeth, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet na fyddai'r Cynllun Digidol yn ddogfen sy'n sefyll yn ei hunfan, ac y byddai'n cael ei hadolygu'n barhaus.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

**6. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU YSGOLION UWCHRADD CATEGORI 3 GWYNEDD**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd a'r Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Paul Rowlinson, adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd a gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor craffu ystyried y cynnwys, gwneud sylwadau a gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol, gan gynnig unrhyw welliannau a chymeradwyo'r adroddiad.

Awgrymodd Cadeirydd yr Ymchwiliad na ddylid trafod yr adran ar GwE mewn manylder, gan y deellid bod GwE yn anghytuno gyda rhai o'r materion a nodwyd, ond pwysleisiwyd bod Argymhelliad 17 yn gofyn am drafodaeth bellach yn unig rhwng yr Awdurdod Addysg a GwE.

Diolchodd Cadeirydd yr Ymchwiliad i'r Tîm Ymchwilio, ac yn enwedig y Swyddog Arweiniol, am eu gwaith, ac i staff, disgyblion a llywodraethwyr y 3 ysgol am roi o'u hamser i gyflwyno'r dystiolaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Ymchwiliad am eu gwaith. Yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau, cynnig sylwadau, neu gynnig gwelliannau i'r adroddiad.

Diolchwyd yn arbennig i ddisgyblion yr ysgolion am eu parodrwydd i siarad yn hynod agored gydag aelodau'r Ymchwiliad.

Pwysleisiwyd bod angen rhoi mwy o gefnogaeth i sefydliadau sy'n helpu plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg yn gymdeithasol, megis Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, a'u cyflwyno mewn modd positif yn yr ysgolion. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi colli ei glybiau ieuenctid a bod angen gweld pa gyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael i annog y defnydd o'r Gymraeg.

Awgrymwyd bod y ffigurau yn Atodiad 5 yn ymddangos yn anhygoel o dda, a holwyd o ble y cafwyd y data. Mewn ymateb, eglurwyd bod y data yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod gan yr ysgolion. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ar yr un mater, cadarnhawyd nad oedd aelodau'r Ymchwiliad wedi herio'r ffigurau mewn unrhyw fanylder, a'u bod wedi derbyn y data a gyflwynwyd gan yr ysgolion.

Mynegwyd pryder nad oedd y 3 ysgol a ddewiswyd yn rhoi darlun o'r sefyllfa yn holl ysgolion Gwynedd, gan fod y 3 ohonynt mewn cymunedau cynhennid Gymreig ar y cyfan, ac awgrymwyd bod yna ysgolion eraill yng Ngwynedd fyddai wedi adlewyrchu sefyllfa wahanol iawn.

Mynegwyd pryder ynglŷn â gallu rhieni i wrthod addysg Gymraeg i'w plant, a thrwy hynny amddifadu eu plant o'r cyfle i gael gyrfa dda a byw yn yr ardal yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y daeth yn amlwg yn ystod yr Ymchwiliad bod yr ysgolion dan bwysau mawr i gynnig darpariaeth Saesneg, gan fod rhieni yn bygwth symud eu plant i Ysgol Friars neu Ysgol Tywyn (sy'n ysgolion categori 3T) fel arall. Credid bod angen edrych yn fanylach ar y dylanwad yma ac effaith yr opsiwn o fynd i Ysgol Friars neu Ysgol Tywyn ar ysgolion eraill Gwynedd. Mynegwyd tristwch nad oedd gan rai rhieni a disgyblion hyder yn ein hiaith, ac awgrymwyd ei bod yn hen bryd i'r Awdurdod Addysg, yr ysgolion a'r penaethiaid wneud safiad cryf iawn a gwrthod i rieni symud eu plant i'r ysgolion categori 3T, a mynnu bod y Gymraeg yn ddigon yn ein hysgolion fel cyfrwng. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn haws i'r ysgolion wrthod ceisiadau gan rieni i symud eu plant petai hyn yn cael ei werthu fel polisi'r Awdurdod, yn hytrach na pholisi'r ysgol.

O ran y rhieni hynny sy'n gwrthod addysg Gymraeg i'w plant, holwyd pa ddarpariaeth fforddiadwy a hygyrch sydd ar gael iddynt ddysgu'r iaith eu hunain, fel nad ydi'r broblem yn codi yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran y rhieni sydd wedi ymrwymo i'w plant fynd i'r canolfannau i hwyrddyfodiaid, bod yna diwtor Cymraeg i Oedolion yn bresennol ymhob bore agored er mwyn dangos yr arlwy sydd ar gael ar gyfer dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb i rieni, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer helpu gyda'r plant.
- Bod y trefniadau hyn yn rhedeg ers dros flwyddyn a hanner bellach a bod nifer wedi cofrestru am wersi Cymraeg ar y cyd â'u plant.
- Bod y Gwasanaeth yn trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb a chyfarfod rhithiol gyda Hunaniaith i hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol yn y gwahanol ardaloedd er mwyn annog rhieni i fanteisio ar gyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg gyda'u plant.

Nodwyd ei bod yn galonogol gweld a theimlo ymrwymiad y staff a'r disgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg a bod hynny'n rhoi rheswm i fod yn optimistaidd am y dyfodol.

Nodwyd y dylid nodi parch ac edmygedd yr aelodau o ddiffuantrwydd y mwyafrif llethol o staff yr ysgolion, a swyddogion y Cyngor, sy'n ymrwymo i geisio cael y plant yn hollol ddwyieithog. Os oedd unrhyw un yn cwyno am unrhyw beth, doedd neb yn cwyno am unigolion yn sicr, ond o bosib' bod yna ambell system, weithiau o fewn ein dwylo ac weithiau y tu allan i'n dwylo, sy'n ein gadael i lawr.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi'r argraff bod popeth ar drac o ran y data, ond hefyd yn amlygu nifer o broblemau, anecdotaidd o bosib' ar hyn o bryd, ac efallai bod angen mwy o ddata a ffeithiau caled, yn hytrach na hanesion yn unig.

Mynegwyd y farn bod angen cryfhau ambell argymhelliad, ee. y Polisi Iaith. Credid bod sôn am ddwyieithrwydd yn agor y drws i amwysedd mawr, ac os oeddem o blaid addysg Gymraeg, yna addysg Gymraeg amdani, gyda'r Saesneg yn cael ei dysgu fel pwnc i'r safon uchaf bosib'. Fel arall, roeddem yn agor y drws i'r cwynion a'r ceisiadau. O ran y data ynglŷn â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, pwysleisiwyd y dylai hynny fod yn eitem sefydlog ar raglen pob cyfarfod o'r Fforwm Penaethiaid Uwchradd, yn hytrach na'n bod yn gwneud cais i hynny ddigwydd unwaith y flwyddyn, fel y nodir yn yr argymhellion.

Nodwyd bod angen cryfhau'r cydweithio gydag asiantaethau yn yr argymhellion. Roedd sôn am Gwricwlwm i Gymru, GwE a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond beth am Yrfa Cymru?

Nodwyd na welwyd unrhyw ddata ynglŷn â faint o hwyr-ddyfodiaid sy'n dod i mewn i'r ysgolion uwchradd ym mlwyddyn 10 neu 11, ac felly heb fynychu'r canolfannau iaith. Awgrymwyd bod angen astudiaeth ar wahân ar hynny, yn edrych ar ddulliau o gynnwys y bobl ifanc ac o ddarparu cymorth ychwanegol ar eu cyfer, megis hanner awr o drochi Cymraeg ar ddechrau pob diwrnod ysgol.

Nodwyd bod raid cofio mai ond hyn a hyn y gall yr ysgolion ei wneud yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ond bod ein hiaith yn dioddef oherwydd llymder a thorri cyllidebau yn San Steffan.

Nodwyd bod y data yn awgrymu bod rhieni a dysgwyr yn dymuno newid cyfrwng iaith addysg o'r Gymraeg i'r Saesneg wrth i'r dysgwyr agosáu at TGAU a Lefel A, a holwyd, yn ogystal â'r ymgyrch farchnata ar gyfer rhieni'r plant sy'n cyrraedd yr ysgolion, a fyddai hefyd yn fuddiol cynnal ymgyrch ar wahân ar gyfer y dysgwyr eu hunain. Gellid cynnal ymgyrch o'r fath ar y cyd â phartneriaid allweddol megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Gyrfa Cymru, gan annog y dysgwyr i ddilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy wneud y

cyswllt rhwng y Gymraeg a swyddi sy'n talu'n well. Gellid hefyd edrych ar enghreifftiau o lwyddiannau e.e. unigolion o aelwydydd di-gymraeg sydd bellach yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i roi ei hymateb i brif ganfyddiadau ac argymhellion yr Ymchwiliad, a gofynnwyd iddi gadarnhau a oedd yn derbyn yr argymhellion ai peidio. Nododd yr Aelod Cabinet:-

- Bod y drafodaeth a'r adroddiad yn hynod werthfawr, ac y dymunai ategu'r diolch i aelodau'r Ymchwiliad a'r ysgolion sydd wedi cymryd rhan.
- Bod yna lawer o bethau calonogol iawn yn yr adroddiad, yn ogystal â phethau sydd angen edrych arnynt ymhellach.
- Bod yna groesdorri amlwg mewn mannau gyda'r Strategaeth Addysg a'r gwaith sydd angen ei wneud ar y Polisi Iaith Addysg, a bod hyn am fod yn ddefnyddiol iawn gan y byddai'n taflu goleuni ar ambell ddarn o waith arall lle mae modd tynnu pethau at ei gilydd.
- Y croesawid y cyfeirio at y cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg, a bod yr ysgolion yn rhan o'u cymunedau, yn hytrach nag yn bodoli mewn swigen.
- Bod y cyfeiriad at ddiffinio dwyieithrwydd yn hynod o bwysig gan fod y ffordd mae Gwynedd yn gweithredu yn wahanol iawn, ac efallai bod yna ddiffyg dealltwriaeth o hynny gan rai unigolion / sefydliadau.
- Ei bod yn teimlo'n angerddol iawn ynglŷn â'r gwaith i gefnogi'r ysgolion trosiannol, ac yn croesawu'n fawr unrhyw beth sy'n gwthio hynny yn ei flaen.
- Bod unrhyw symudiad i gryfhau'r dull o gasglu data yn mynd i helpu'r Awdurdod gyda'i waith strategol.
- Bod y cyfeiriad at hyrwyddo'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim ar gyfer athrawon sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg yn alwad pwysig iawn.
- Ei bod yn croesawu'r ffaith bod yna rieni hwyrddyfodiaid sy'n dewis dysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u plant gan fod hynny'n gallu newid holl siâp ieithyddol teulu.
- Ei bod yn hynod angerddol dros unrhyw beth sy'n cryfhau'r cyfleoedd i bobl gaffael iaith, ac yn croesawu'r sawl cyfeiriad at hynny yn y gwaith.

I gloi, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod yn derbyn argymhellion yr Ymchwiliad mewn egwyddor ac yn dymuno mynd â'r adroddiad i'r Cabinet am drafodaeth oherwydd y croesdorri gyda'r Strategaeth Addysg a'r Polisi Iaith Addysg, a'r angen tebygol am adnodd i wireddu rhai darnau gwaith, megis cryfhau'r ddarpariaeth / cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ym mlwyddyn 10 neu 11.

Wedi i'r pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad yn ffurfiol, gan hefyd benderfynu derbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet ar weithrediad fesul argymhelliad yng nghyfarfod 21 Mawrth, 2024, nododd y Cadeirydd:-

- Yn ystod cyfnod yr Ymchwiliad, y mabwysiadodd y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 4 Mai, 2023, y rhybudd o gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur:-

  *Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt.*

- Gan ystyried gwaith yr Ymchwiliad, ac yn benodol Argymhellion 1 a 2, bod angen i'r pwyllgor ddod i gasgliad os oes gwaith pellach i'w wneud, neu os yw'r hyn a gyflwynwyd gan yr Ymchwiliad yn ateb y gofyn.

Gan fod yr hyn y gofynnwyd amdano yn y rhybudd o gynnig yn derbyn sylw drwy argymhellion yr Ymchwiliad, a bod yr Aelod Cabinet a'r Adran yn cymryd ystyriaeth a fydd yna weithrediad, cytunwyd nad oedd gwaith pellach i'r pwyllgor ei wneud ar hyn o bryd i ymateb i'r rhybudd o gynnig.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Categori 3 Gwynedd.**

**(ii) Derbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet ar weithrediad fesul argymhelliad yng nghyfarfod 21 Mawrth, 2024.**

**(iii) Derbyn bod yr hyn a gyflawnwyd gan yr Ymchwiliad yn ateb y gofyn o ran y rhybudd o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur i'r Cyngor llawn ar 4 Mai, 2023.**

## 7. STRATEGAETH ADDYSG GWYNEDD TUAG AT 2032

Croesawyd y Pennaeth Cynorthwyol: Cynradd yn ychwanegol i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg, ar gais aelodau'r pwyllgor, a gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth ac amcanion yr Adran Addysg a nodir yn y Strategaeth Addysg ddrafft tuag at 2023 a thu hwnt, gan hefyd gyflwyno sylwadau ar yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Llesiant.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

O ran y sylw yn yr adroddiad bod y ddogfen yn un fyw y byddai modd ymweld â hi yn gyson dros gyfnod y Strategaeth, holwyd pa mor hwylus, a beth fyddai'r amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw newidiadau, oherwydd petai'n fater o flynyddoedd, neu'n fater o fisoedd hyd yn oed, ni ellid ei galw'n ddogfen fyw mewn gwirionedd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r ddogfen yn cael ei hadolygu yn fewnol yn rheolaidd.
- Gan fod addysg yn faes lle mae polisïau'n gallu newid yn eithaf cyflym mewn gwahanol feysydd, byddai'r Adran yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw newid drwy fod y ddogfen yn esblygu a newid yn ôl yr angen.

Nodwyd nad oedd llawer o sôn am anghenion dysgu ychwanegol yn yr adroddiad, ac eithrio cyfeiriad at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, a mynegwyd pryder ynglŷn â 3 mater penodol, sef:-

- Strategaeth addysg Gwynedd ar ADY yn y prif lif am y 10 mlynedd nesaf.
- Gorlenwi yn y ddwy ysgol ADY yng Ngwynedd.
- Y nifer o blant yn y prif lif sy'n methu ymdopi â system addysg prif lif.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Strategaeth Addysg yn strategaeth addysg lefel uchel ar gyfer holl blant y sir a bod y sylw ynglŷn â phlant addysg arbennig sydd ag anghenion ychwanegol a chynhwysiad ymhlyg yn Amcan 3 – iechyd a lles dysgwyr, sy'n cyfeirio at yr holl ddysgwyr.

- Bod y Strategaeth hefyd yn cyfeirio at y ddyletswydd sydd gan yr Awdurdod i adolygu'r stoc ysgolion yng nghyd-destun ysgolion arbennig, petai angen gwneud hynny.
- O dan y strategaeth lefel uchel, bod gan yr Awdurdod Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ar gyfer Band C fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru maes o law.
- Bod yna nifer o bolisïau a strategaethau yn yr haenau o dan y strategaeth lefel uchel, ac yno y byddai'r manylder.

Mynegwyd y farn nad oedd y Strategaeth, o bosib', yn ystyried gwaith yr Ymchwiliad Craffu Ysgolion Categori 3 Gwynedd (eitem 6 uchod), gan y bu i aelodau'r Ymchwiliad bwysleisio'r trafferthion sy'n codi yn sgil y pwyslais ar ddwyieithrwydd. Nodwyd mai ail amcan y Strategaeth oedd '*Ehangu a chryfhau ein darpariaeth Gymraeg a dwyieithog*', ond na allai '*dwyieithog'* olygu unrhyw beth heblaw darpariaeth Saesneg yn y cyd-destun hwn, gan fod y Gymraeg eisoes wedi'i chyfarch o fewn yr amcan. Gan hynny, argymhellwyd y dylid ail-edrych ar y Strategaeth Addysg yng ngoleuni adroddiad yr Ymchwiliad craffu, ac yn benodol o ran sut yr ymdrinnir â dwyieithrwydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hyn yn enghraifft wych o sut mae'r Strategaeth yn ddogfen fyw ac yn esblygu.
- Bod yr amcan yng nghyd-destun y Gymraeg a dwyieithrwydd yn adlewyrchiad o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.
- Bod ymrwymiad eisoes i adolygu'r Polisi Iaith Addysg, ac y byddai ffrwyth hynny wedyn yn bwydo i mewn i'r ddogfen hon.

Awgrymwyd y byddai dileu pob enghraifft o '*ddwyieithrwydd'* a '*dwyieithog'* o'r ddogfen yn ffordd hwylus o sicrhau bod y ddogfen yn dweud yr hyn y disgwylir iddi ei wneud ac yn cyd-redeg â rhai o amcanion a strategaethau eraill y Cyngor.

Nodwyd mai un o'r gwerthoedd sy'n cael ei nodi yn y colofnau ar ail dudalen y ddogfen, fel sail i'r ffordd y byddwn yn mynd ati i siapio'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd i'r dyfodol, yw paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith. Er bod hynny'n glodwiw iawn ac yn ddisgwyliedig, dymunid gweld cyfeiriad yma hefyd at baratoi pobl ifanc ar gyfer bod yn ddinasyddion. Mewn ymateb, nodwyd y croesawid y sylw yn fawr iawn, a'i fod ymhlyg, mae'n debyg, yn y golofn gyntaf o ran y cwricwlwm a phrofiadau dysgu, ond y cytunid y dylai fod yn fwy eglur yn y ddogfen.

Holwyd a fyddai'n bosib' tynnu'r cyfeiriadau at '*ddwyieithrwydd'* a '*dwyieithog'* o'r amcanion yn yr adroddiad, gan ei bod yn amlwg mai'r nod yw cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

Nodwyd nad oedd yna lawer o gyfeiriad yn y Strategaeth at ymateb i'r newid mewn demograffeg, er i'r Aelod Cabinet nodi, mewn ymateb i gwestiwn diweddar yn y Cyngor llawn, bod y Strategaeth yn nodi sut y byddem yn datblygu'r gyfundrefn i'r dyfodol ac yn ymateb i'r heriau demograffeg. Roedd sôn am yr angen i sicrhau ein bod yn barod i ymateb i newidiadau demograffeg, ond dim eglurhad ynglŷn â sut y bwriedid gwneud hynny. Nodwyd y gofynnid y cwestiwn yng nghyd-destun cau, neu'r posibilrwydd, o gau Ysgol Felinwnda. Roedd hynny'n fater o bryder, nid yn unig am gau ysgol, ond pryder yn gyffredinol yn y dalgylch am ysgolion a chymunedau gwledig yn gyffredinol, a'r teimlad bod angen strategaeth glir gan y Cyngor fel bod rhieni a phobl yn y gymuned yn gwybod, ac yn deall yn fras, meddyliau'r Cyngor, os ydi ysgolion bychan yn gorfod cau oherwydd demograffeg. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i edrych ar ddemograffi a'r problemau mae hynny'n ei achos mewn rhai cymunedau.
- Bod hyn, mae'n debyg, ymhlyg yng ngholofn 5 o'r gwerthoedd, sy'n sôn am ddatblygiad sefydliadau addysgol o'r math cywir wrth symud ymlaen.

- Fel y nodwyd eisoes mewn ymateb i sylwadau eraill, bod yna nifer o strategaethau manwl iawn yn yr haenau sydd o dan y strategaeth lefel uchel hon.
- Ein bod yn ymwybodol iawn o'r broblem sydd gennym eisoes, ond yn fwy fyth ar y gorwel, o ran demograffi, ac felly byddai gwaith a strategaethau'r Adran o ran ad-drefnu ein cyfundrefn yn canolbwyntio ar yr hyn a nodir yn y bumed golofn o'r gwerthoedd fel is-strategaeth i allu cyflawni hynny.

Ategwyd y pryderon a fynegwyd yn gynharach yn y drafodaeth ynglŷn â darpariaeth addysg arbennig.  Nodwyd y dymunid i'r Strategaeth gynnwys darn penodol ynglŷn â'r ysgolion addysg arbennig gan fod anhawster cael mynediad i'r ysgolion hynny yn golygu bod plant ag anghenion dwys yn gorfod aros yn yr ysgolion prif lif, sy'n gwbl anaddas ar gyfer eu hanghenion.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Fel y nodwyd eisoes, mai strategaeth lefel uchel yw hon, a bod gan yr Awdurdod strategaeth ar gyfer symud ymlaen i edrych ar hyn.
- Bod uned wedi'i hagor fel lloeren er mwyn ehangu'r ddarpariaeth.
- Nad oedd yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg arbennig yn heriau i Wynedd yn unig, a bod yna nifer o ffactorau y tu ôl i hynny.
- Cyn i'r ysgol newydd yn Hafod Lon gael ei hadeiladu, bod yna nifer o blant gydag anghenion dwys iawn yn mynychu ysgolion prif lif, a hynny, o bosib', oherwydd canfyddiad rhieni o'r hen adnodd.  Roedd mwy yn dymuno gyrru eu plant i'r ysgol newydd, ac roedd hynny i'w groesawu.
- Wrth i dechnegau meddygol a gofal meddygol esblygu dros y blynyddoedd diwethaf, bod nifer o blant a phobl ifanc yn goroesi, na fyddai wedi gwneud hynny'n flaenorol. Roedd hynny'n ardderchog ac yn rhywbeth i fod yn hynod ddiolchgar yn ei gylch, ond nid oedd heb ei bwysau ar y sector.
- Y byddai'r Adran yn cyflawni darn o waith i edrych ar y strategaeth addysg arbennig er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym ofod digonol, a bod yr adnoddau yna.
- Bod ymrwymiad staff y 2 ysgol arbennig at ofal, lles ac addysg y plant dwys yn gwbl ryfeddol.

Holwyd a yw'r defnydd o'r geiriau 'mwy abl a thalentog' yng nghyswllt Rhwydwaith SEREN yn addas yn y cyd-destun yma gan fod pob dysgwr yn dalentog a gyda chryfderau gwahanol.  Mewn ymateb, nodwyd na anghytunid â hynny, ond bod hyn yn derm cenedlaethol cydnabyddedig i gohort neu grŵp o blant.

Nodwyd bod y Strategaeth yn nodi ymrwymiad i leihau effaith tlodi ar gynnydd a chyraeddiadau dysgwyr, a holwyd sut y bwriedid gwneud hynny.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hynny'n flaenoriaeth amlwg a bod yr Aelod Cabinet eisoes wedi ymrwymo yng Nghynllun y Cyngor i gyflawni darn o waith i edrych ar gost y diwrnod ysgol.
- Bod angen meddwl yn soffistigedig am dlodi, gan fod tlodi yn ehangach na thlodi ariannol yn unig.
- Mai pwrpas y darn gwaith oedd edrych ar y rhwystrau sy'n atal plentyn rhag cyrraedd ei botensial addysgol, a gwneud beth bynnag y gellir i'w dileu.

Holwyd a oeddem yn gwybod rhywbeth am gefndir cymdeithasol y plant 'mwy abl a thalentog' at ei gilydd.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Ein bod yn sôn am 'mwy abl a thalentog' mewn cyd-destun academaidd yn yr achos dan sylw, ond bod abl a thalentog yn ehangach na hynny, ac yn ôl canllaw Llywodraeth Cymru, yn fwy na mesur academaidd yn unig.

- Bod SEREN wedi'u herio ar y cwestiwn o ddenu trawsdoriad cymdeithasol ddigon eang, ac wedi cymryd camau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy agored.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r cynnydd sylweddol dros yr haf yng nghostau cludiant ysgol i deuluoedd sydd ddim yn gymwys am gludiant am ddim i'w plant. Mewn ymateb, nodwyd bod yr Awdurdod yn gaeth i'r polisi yn anffodus, ond y byddai'n ddiddorol edrych ar hyn yng nghyd-destun darn gwaith yr Aelod Cabinet ar gost y diwrnod ysgol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

**8. PRESENOLDEB AC YMDDYGIAD DISGYBLION YSGOLION GWYNEDD**

Croesawyd y Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad a'r Rheolwr Cynhwysiad Adran Addysg i'r cyfarfod yn ychwanegol ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn darparu gwybodaeth am lefelau presenoldeb a gwaharddiadau ar draws ysgolion Gwynedd, gan gynnwys amlinelliad o'r prif resymau dros absenoldebau a gwaharddiadau. Gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor ystyried os oes angen craffu unrhyw agwedd arall o bresenoldeb a gwaharddiadau, ynghyd ag effaith y ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig i annog gwelliant mewn presenoldeb ac ymddygiad disgyblion Gwynedd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, manylodd y Rheolwr Cynhwysiad ar gynnwys yr adroddiad ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd beth oedd yn esbonio'r ffaith bod y problemau ymddygiad a phresenoldeb yn dilyn y pandemig Covid-19 yn parhau, gan y byddai rhywun wedi disgwyl i'r plant ail-ymgyfarwyddo â mynd i'r ysgol wrth i amser fynd yn ei flaen, ac i'r ffigurau ostwng. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod nifer o'r gwaharddiadau yn ymwneud â thrais yn erbyn cyfoedion ac aelodau o staff yr ysgol.
- Bod cynnydd sylweddol hefyd mewn defnydd cyffuriau, gyda nifer o blant bellach yn cario cyffuriau i mewn i'r ysgol i'w gwerthu, neu ar gyfer eu defnydd eu hunain. Nodwyd bod achos ar y funud ble mae gan y Gwasanaeth bryder mawr am un disgybl ym Mlwyddyn 6.
- Bod pawb wedi disgwyl i'r flwyddyn gyntaf yn dilyn y pandemig fod yn heriol, ond yn anffodus, roedd pethau wedi gwaethygu ers hynny.

Holwyd a oedd plant anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan hyn, ac os felly, i ba raddau. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y data yn cael ei gasglu'n fisol, gyda swyddog yn cofnodi pob gwaharddiad gan nodi ydyn nhw'n blant ag anghenion ychwanegol, oes ganddyn nhw gynllun datblygu unigol ac ydyn nhw'n blant sy'n cael cinio ysgol am ddim.
- Nad oedd yna batrwm pendant bod plant yn y categorïau yma, ac roedd rhai o'r plant hefyd yn dod o gefndiroedd na fyddem wedi disgwyl iddynt amlygu'n broblemus o fewn yr ysgolion.

Holwyd a oedd yna dystiolaeth bod ymdrechion i wella presenoldeb, drwy lythyru rhieni a gwneud bygythiadau, ac ati, yn arwain at ddisgyblion yn tynnu allan o'r system yn gyfan gwbl. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod nifer y plant sy'n cael eu dadgofrestru wedi cynyddu, a bod hynny, ynddo'i hun, yn bryder i'r Gwasanaeth.
- Bod gan y Gwasanaeth swyddogion lles sy'n cefnogi teuluoedd.
- Bod yr Awdurdod yn dirwyo neu'n erlyn rhieni fel y cam olaf yn unig gan na ddymunid arwain at fwy o gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref.
- Bod gan y Gwasanaeth dîm penodol o fewn yr Adran sy'n edrych ar addysgu o'r cartref ac yn gwirio lleoliadau a chynnydd a safon yr addysg mae'r plant yn derbyn.

Nodwyd bod ffigwr gwaharddiadau parhaol Gwynedd yn 2022/23, sef 48, yn frawychus a holwyd beth yn union y bwriadai'r Awdurdod ei wneud yn wahanol i'r gorffennol, ynghyd â beth y bwriedid ei roi mewn lle o'r newydd i sicrhau y bydd y ffigwr hwn yn gostwng erbyn mis Medi 2024. Holwyd beth oedd y ffigurau mewn siroedd eraill tebyg i Wynedd, fel Môn a Cheredigion, dros yr un cyfnod. Gofynnwyd hefyd a oedd yna ysgol (heb enwi) sydd byth bron yn gwahardd, a beth ellid ei ddysgu o'r arfer da yna, a hefyd oedd yna ysgol (eto heb enwi) sy'n gwahardd yn fwy cyson nag ysgolion cyffelyb. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y cytunid bod y ffigurau yn ddychrynllyd ac y dymunid diolch i'r ysgolion am adrodd mor dryloyw a gonest ar nifer y gwaharddiadau parhaol.
- Bod y Gwasanaeth yn llwyr ymwybodol o'r gwaith sydd angen ei wneud, ac y bwriedid comisiynu darn o waith dros y flwyddyn nesaf gan gyn-arolygwr Estyn, sy'n arbenigo yn y maes cynhwysiad, yn edrych ar y defnydd o arian cynhwysiad o fewn yr ysgolion. Byddai'r gwaith hwn yn cychwyn yn y ddau fis nesaf ac yn darparu fframwaith ynglŷn â sut i wella'r gwasanaeth i'r dyfodol.
- Bod gan yr Adran hefyd dimau sy'n cefnogi ysgolion yn y sector cynradd a'r uwchradd, er mwyn modelu ymddygiad cadarnhaol a rhoi strategaethau mewn lle ayb, a bwriedid penodi swyddogion ychwanegol i'r timau hyn o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.
- Bod yr Adran wedi bod yn llwyddiannus yn denu swm sylweddol o arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnig rhaglenni i ysgolion o ran gwasanaethau arbenigol yn ymwneud ag ymddygiad. Ni ellid bod yn sicr a fyddai hynny'n gwneud gwahaniaeth ai peidio, ond byddai'n amlygu'r math o gefnogaeth sydd ei hangen.
- O ran ffigurau siroedd eraill, bod y Gwasanaeth ADY a CH yn gweithredu dros Wynedd a Môn, a hefyd yn cydweithio gyda'u cyfoedion ar draws siroedd y Gogledd, ac roedd yn amlwg bod y siroedd hynny hefyd yn wynebu'r un heriau.
- Bod y Gwasanaeth yn bryderus ynglŷn â'r lefelau uchel o waharddiadau mewn 5 ysgol yn ardal Arfon yn bennaf, a bod yr ysgolion sydd prin yn gwahardd yn Ne'r Sir.
- Y gallai fod yn gamarweiniol edrych ar y niferoedd unigol o ddisgyblion mae ysgolion wahardd a'i bod yn fwy cywir edrych ar hynny fel canran o boblogaeth yr ysgol.
- Ei bod yn hanfodol edrych ar gysoni'r rhesymau dros wahardd disgyblion ar draws y sir, gan ystyried oes yna wahaniaeth mewn lefelau goddefgarwch rhwng ysgolion; pa strategaethau mae rhai ysgolion yn ddefnyddio er mwyn atal y math o ymddygiad rhag dwysau i fod yn rhywbeth sy'n teilyngu gwaharddiad, ac oes yna gyfnod penodol, rhesymau, ymddygiad neu ffactorau sy'n dderbyniol mewn un ysgol, na fyddai'n dderbyniol mewn ysgol arall.
- Bod arian yn dilyn plentyn sy'n trosglwyddo i ysgol arall o ganlyniad i waharddiad, neu am ba reswm bynnag, fel bod yr ysgol sy'n derbyn y plentyn yn ei chael yn haws darparu ar ei gyfer.
- Yn wyneb y sefyllfa sydd ohoni, nad oedd yn syndod bod Estyn wedi dewis cynhwysiad fel un maes penodol i edrych yn fanwl arno fel rhan o'u harolwg diweddar o'r gwasanaethau addysg.

Holwyd a oedd y Paneli Apêl Mynediad a Gwaharddiad yn dal mewn bodolaeth, ac os felly, pam na fu unrhyw gyswllt pellach gyda'r aelodau lleyg hynny oedd wedi mynychu dau ddiwrnod dwys o hyfforddiant yn y maes cyn y pandemig.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y Paneli yn parhau mewn bodolaeth, ond ychydig o geisiadau a dderbynnid am wrandawiadau annibynnol.
- Bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol o ran yr angen i hyfforddi llywodraethwyr newydd a phrofiadol er mwyn dwyn sylw at eu cyfrifoldeb pan fo plentyn yn cael ei wahardd.  Yn ogystal â thrafodaethau gyda'r Swyddog Adnoddau Cynorthwyol, a oedd yn gyfrifol am gydlynu hyfforddiant llywodraethwyr, i ail ymweld â'r mater, bod pecyn hyfforddiant penodol ar gyfer llywodraethwyr newydd wedi'i addasu fel ei fod yn bwrpasol ac yn gyfredol.
- Y gwerthfawrogid cael pobl i wirfoddoli ar y panel oherwydd ei bod yn hynod bwysig bod lleisiau plant a theuluoedd yn cael eu clywed gan grŵp o unigolion hollol annibynnol i'r ysgol.

Holwyd pa mor debygol yw'r plant sy'n cael eu gwahardd am gyfnod o gael eu gwahardd eto, dro ar ôl tro.  Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod gan y Gwasanaeth fasdata sy'n tracio pob unigolyn sy'n cael ei wahardd.
- Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bod unigolyn yn gallu derbyn gwaharddiad dros 15 diwrnod, neu dros gyfnod o flwyddyn academaidd, ac yna bod rhaid cynnal panel ymddygiad gyda'r corff llywodraethwyr, y rhieni a'r unigolyn er mwyn osgoi symud ymlaen i waharddiad parhaol.

Nodwyd bod sawl astudiaeth yn dangos yn glir mai pobl ifanc ydi un o'r grwpiau sydd wedi'u heffeithio fwyaf yn sgil Cofid, a theimlid bod pobl ifanc yn cael eu hanghofio. Nodwyd bod darpariaeth hamdden i bobl ifanc y tu allan i'r ysgol, megis clybiau ieuenctid, ayb, yn cael effaith llesol iawn ar iechyd meddwl unigolion, a holwyd a oedd yr Adran yn ystyried hyn, ar y cyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid, fel ffordd o geisio taclo'r problemau. Mewn ymateb, nodwyd y cytunid â'r sylw a bod angen edrych ar sut mae'r adnodd sydd gan y Cyngor o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei ddefnyddio er mwyn cymryd mantais llawn ohono.

Gan gyfeirio at waharddiadau dros dro sy'n digwydd dro ar ôl tro i'r un plentyn, nodwyd ei bod yn amlwg nad yw'r strategaethau yn gweithio bob amser, a bod plant weithiau'n cael eu hadnabod gydag anghenion arbennig o ran ymddygiad, ac yn cael cynllun unigol ac yn cael eu trin yn wahanol, a ddim yn cael gwaharddiadau pellach o ganlyniad.  Holwyd oedd y niferoedd hynny yn cynyddu'r un fath, ac ydyn nhw'n llwyddiannus.  Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn bwysig edrych ar hynny hefyd, a chredid bod ymrwymiad gyda'r penaethiaid i wneud hynny.

Croesawyd y ffaith bod yr arian yn dilyn plentyn sy'n symud ysgol oherwydd gwaharddiad, ond yn ogystal â'r gost arferol o addysgu'r plentyn, roedd y plant yma, yn aml iawn, angen llawer mwy o gymorth, a holwyd a ystyrid rhoi premiwm ar yr arian sy'n cael ei drosglwyddo i'r ysgolion sy'n derbyn plant dan yr amgylchiadau hyn.  Mewn ymateb, nodwyd bod swm o tua £1.1m yn mynd i'r sector uwchradd ar gyfer cynorthwyo gyda'r math hyn o beth, ac er na awgrymid am eiliad nad oedd yr arian yn cael ei ddefnyddio'n iawn, efallai bod angen gwneud darn o waith i edrych ar beth yn union mae'r ysgolion yn ei wneud gyda'r arian yma.

Nodwyd nad yr Adran Addysg a'r Cyngor yn unig sydd â'r ateb i'r problemau hyn a bod rhaid edrych ar y darlun cyflawn o ran cartref, cymuned ac iechyd y person ifanc, yn

enwedig yn wyneb y toriadau mawr mae'r asiantaethau sy'n cefnogi teuluoedd a'r maes iechyd wedi'u hwynebu yn y blynyddoedd diwethaf. Pwysleisiwyd y dylai'r holl asiantaethau eistedd o amgylch y bwrdd i sicrhau'r canlyniad gorau i'r person ifanc, ond oherwydd bod pob adran a phob maes yn derbyn toriadau, roedd pawb yn gafael yn dynn yn eu pwrs eu hunain. Nodwyd bod angen edrych ar fwy na'r ffigurau moel gan edrych beth yw'r gwir reswm bod y person ifanc yn dangos y math yma o ymddygiad. Roedd llawer iawn o waith i'w wneud, a chyfnod heriol o'n blaenau, ond drwy gynlluniau fel hyn, ac ati, mawr obeithid y byddai'r ffigurau yn dechrau gostwng, ond roedd angen i'r asiantaethau eraill fod o gwmpas y bwrdd hefyd.

Nodwyd mai dim ond ar ôl i bopeth arall fethu mae'r penderfyniad anodd a phoenus i wahardd disgybl yn barhaol yn cael ei wneud, a bod rhaid i'r penderfyniad fod er lles y staff a'r disgyblion eraill, a hefyd er lles y disgybl ei hun sydd ar fin cael ei wahardd.

Gan gyfeirio at y rhesymau dros wahardd disgyblion, nodwyd bod yr adroddiad a thrafodaeth y pwyllgor wedi rhoi'r ffocws ar y rhai sy'n cael eu gwahardd, ond bod rhaid cofio am weddill y dosbarth hefyd, sy'n cael eu heffeithio gan yr 'ymddygiad aflonyddgar parhaus'. Holwyd i ba raddau roedd 'ymddygiadau bygythiol a threisgar' ar gynnydd, ac i ba raddau roedd 'ymddygiad aflonyddgar parhaus', sy'n tarfu ar drwch y disgyblion eraill, ar gynnydd. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y rheswm y tu ôl i bob gwaharddiad yn cael ei gofnodi.
- Y gwelwyd cynnydd mewn trais, a bod yna gynnydd hefyd mewn disgyblion yn gwrthod cydymffurfio â rheolau'r ysgol, yn tarfu ar y dosbarth yn rheolaidd ac yn bod yn eiriol gyda'r staff a'u cyfoedion.
- Bod y defnydd o e-sigarets hefyd yn broblem fawr yn yr ysgolion.
- Bod gan bob ysgol eu polisi ymddygiad eu hunain, ac na allai'r Awdurdod ddylanwadu ar y polisïau hynny.
- Bod rhai ysgolion yn gwneud gwaharddiadau mewnol, lle mae plentyn sy'n tarfu ar y dosbarth yn cael ei symud i ddosbarth arall lle mae person allweddol ar gael i gynnal trafodaethau adferol gyda hwy.

Mynegwyd gwerthfawrogiad yr aelodau o waith yr holl staff sy'n ymwneud â disgyblion bregus sy'n ei chael yn anodd ymdopi yn yr ysgol am ba resymau bynnag.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

## 9. BLAEN-RAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2023/24

Cyflwynwyd - blaen raglen y pwyllgor ar gyfer 2023/24.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried cais gan yr Adran Addysg i raglennu eitem ychwanegol ac ail amserlennu rhai eitemau sydd i'w craffu yn 2023/24, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Nodwyd bod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac ysgolion arbennig wedi'i nodi fel eitem bosib' i'w rhaglennu yn ystod y flwyddyn, a galwyd am graffu'r eitem yng nghyfarfod Mawrth 2024 yn wyneb rhai o'r sylwadau oedd wedi codi yn ystod y drafodaeth ar y Strategaeth Addysg (eitem 7 uchod). Mewn ymateb, nodwyd y byddai'n amserol i graffu'r eitem ym mis Mawrth fel bod modd bwydo sylwadau'r craffwyr i mewn i unrhyw raglen fuddsoddi cyfalaf yn y maes yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Derbyn cais yr Adran Addysg i raglennu eitem ychwanegol ac ail amserlennu rhai eitemau sydd i'w craffu yn ystod 2023/24.**

**(ii) Craffu'r eitem Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac ysgolion arbennig yng nghyfarfod Mawrth 2024.**
**(iii) Mabwysiadu rhaglen waith ddiwygiedig ar gyfer 2023/24.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 2.55yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd |
| Dyddiad y Cyfarfod | 9 Tachwedd 2023 |
| Swyddog Perthnasol | Debbie A W Jones, Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| Aelod Cabinet | Cynghorydd Beca Brown |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Bu i Estyn gynnal arolygiad o wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd yn ystod yr wythnos yn cychwyn 26 Mehefin 2023. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar ganfyddiadau Estyn yn sgil cynnal yr arolygiad ar 20 Medi 2023. Gweler yr adroddiad yn Atodiad 1.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno adroddiad Estyn o wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd er trafodaeth gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

**2. CRYNODEB O ADRODDIAD ESTYN.** (Mehefin 2023)

2.1 Mae'r crynodeb o adroddiad Estyn o wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd yn nodi fod:

- addysg yn flaenoriaeth glir yng nghynlluniau'r Cyngor;
- staff yr Awdurdod yn coleddu egwyddorion Ffordd Gwynedd, gan ymdrechu i ymgorffori'r egwyddorion hyn eu gwaith o ddydd i ddydd;
- deilliannau arolygiadau o ysgolion a lleoliadau addysg eraill Cyngor Gwynedd yn gryf;
- gan swyddogion yr awdurdod a GwE adnabyddiaeth dda o ddarparwyr i allu eu cefnogi;
- yr ymyrraeth i gefnogi ysgolion sy'n peri pryder yn effeithiol, ond mewn ychydig o achosion nid yw wedi bod yn ddigon amserol;
- lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn elwa o'r gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth Ieuenctid, yn arbennig yng nghyd-destun dysgwyr bregus sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi iddynt adael yr ysgol;
- data presenoldeb ysgolion Gwynedd ddim yn cymharu'r dda â chyfraddau cenedlaethol;
- darpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi cryfhau, fodd bynnag nid yw statws na'r camau mynediad ar gyfer yr hybiau cefnogi ymddygiad yn gwbl eglur;

- hybu'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth amlwg i'r awdurdod a'r gwasanaeth addysg;
- fod y canolfannau trochi'n arbennig o lwyddiannus o ran galluogi hwyrddyfodiaid i'r iaith i gaffael y Gymraeg, ynghyd â datblygu adnoddau rhithwir blaengar i ymarfer patrymau iaith a geirfa a phodlediadau pwrpasol ar fanteision dysgu Cymraeg;
- nodwedd gref o waith yr awdurdod o ran y Gymraeg yw'r ystod o adnoddau gwerthfawr cyfrwng Cymraeg mae staff yr awdurdod wedi'u datblygu ar gyfer dysgwyr gydag ADY a'u teuluoedd;
- yr awdurdod yn darparu arlwy eang o gyrsiau ôl-16 sydd yn ymateb i anghenion ieithyddol ac economaidd y sir, fodd bynnag mae'r broses o adolygu trefniadau addysg ôl-16 Arfon wedi bod yn araf;
- enghreifftiau cadarnhaol o arweinwyr yn rhoi ar waith strategaethau buddiol sydd wedi arwain at welliannau e.e. strategaeth ddigidol yr awdurdod, y gwaith ar foderneiddio ysgolion a chryfhau'r ddarpariaeth drochi;
- trefniadau diogelu o fewn y gwasanaeth addysg yn gyffredinol gadarn;
- gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa ariannol o fewn y gwasanaeth addysg.

## 3. ARFER DDA – CAMEO ADRODDIAD ESTYN

3.1

| **Cameo – Yr Ŵyl Llesiant** |
| --- |
| Mewn ymateb i ddymuniadau pobl ifanc, bu i weithwyr ieuenctid eu cefnogi i arwain ar gynllunio gŵyl llesiant er hybu iechyd meddwl a lles pobl ifanc a darparu mynediad at wybodaeth a chefnogaeth gan ystod o wasanaethau. Datblygodd yr ŵyl i fod yn ddigwyddiad wythnos o hyd ledled y sir. Roedd 31 o sefydliadau ynghlwm â'r ŵyl a chynhaliwyd 49 o sesiynau amrywiol yn ystod yr wythnos. Yn ogystal, dosbarthwyd dros 700 o flychau lles i bobl ifanc. |

3.2

| **Cameo – Defnyddio technoleg ddigidol i annog defnydd o'r Gymraeg** |
| --- |
| Mae arweinwyr ac athrawon yn cydweithio gyda chwmni masnachol lleol i greu adnodd rhithwir blaengar sy'n seiliedig ar eu cynllun trochi iaith newydd. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bentref dychmygol Aberwla ac mae'r cyfarpar rhithiol yn cynnig profiad arbennig i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith a geirfa. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd effeithiol o hysbysu manteision dysgu Cymraeg a rhannu arferion da trwy bodlediadau pwrpasol, er enghraifft trwy gyfweld cyn-ddisgyblion o ganolfannau iaith a'u teuluoedd er mwyn rhannu eu profiadau o ddysgu'r iaith |

## 4. ASTUDIAETH ACHOS ADRODDIAD ESTYN

### 4.1 Gwaith Cyngor Gwynedd o ran datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd, ac ar gyfer trochi iaith.

**Gwybodaeth am yr Awdurdod Addysg Lleol**

Mae gan Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd weledigaeth glir yng nghyd destun addysg trwy gyfrwng Y Gymraeg ar gyfer dysgwyr trwy gydol eu cyfnod ym myd addysg. Mae Polisi Iaith Gwynedd yn anelu at fagu dysgwyr a dinasyddion dwyieithog hyderus. Yng Ngwynedd mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb a'r polisi yn gosod cyfeiriad ac atebolrwydd clir i'r holl ysgolion.

Mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn ymroddedig i gyfrannu tuag at strategaethau a deddfwriaeth cenedlaethol o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, mae'r adran wedi paratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf. Yn unol â'r gofyn statudol mae'r Cyngor hefyd o dan adran 44 Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi llunio a chyhoeddi strategaethau sirol sydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at y nod cenedlaethol a osodir yn Strategaeth Y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, i gynyddu nifer y siaradwyr ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae Strategaeth Iaith sirol Gwynedd (Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23) yn gosod yr ymrwymiad a'r weledigaeth ar gyfer y sir, ac mae gwaith yr Adran Addysg a nodau'r CSGA yn cyfrannu at amcanion y strategaeth sirol honno.

### 4.2 Datblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad

Mae'r awdurdod, ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, wedi buddsoddi mewn gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a Ch) canolog. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob darparwr addysg o fewn y sir ar gyfer darparu cefnogaeth a chyngor ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ADY a Ch neu ar gyfer atal yr anghenion hyn rhag datblygu. Mae hyn trwy ddarparu adnoddau, hyfforddiant a mewnbwn uniongyrchol ar gyfer ysgolion a dysgwyr.

Mae'r gwasanaeth ADY a Ch yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog, gyda phob aelod o staff y gwasanaeth yn medru darparu trwy gyfwng Y Gymraeg. Pwysleisir yr angen am ddarpariaeth yn y Gymraeg o fewn y broses recriwtio.

Mae datblygu adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwaith yma, ac mae'r hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu gan y tîm ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir ystod eang o adnoddau pwrpasol sydd yn cael eu datblygu yn barhaus i gyd-fynd â'r angen sydd yn cael ei adnabod, ac i gyd-fynd â'r ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig. Mae hyn yn cynnwys meysydd cynnal ymddygiad, llesiant a iechyd meddwl, anghenion

dysgu penodol (llythrennedd a rhifedd), cyfathrebu a rhyngweithio, ac anghenion synhwyraidd, meddygol a chorfforol. Mae gwefan benodol wedi ei sefydlu ar gyfer defnydd rhieni a gofalwyr, a gwefan benodol ar gyfer staff ysgolion sydd yn eu galluogi i lawrlwytho adnoddau, ynghyd â dosbarth ar lein ar gyfer adnoddau anghenion dysgu penodol. Mae popeth ar y wefan ar gael yn ddwyieithog: www.adyach.cymru. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol ar lein hefyd yn gwbl ddwyieithog fel bod modd cwblhau yn iaith ddewis y teulu.

Golyga'r uchod bod y ddarpariaeth ADY a Ch yn cyd-fynd gyda'r ethos a'r ddarpariaeth addysgu o fewn y sir, ac yn hybu medrau a dwyieithrwydd y dysgwyr o'r cychwyn. Mae'n golygu hefyd bod modd i rieni a gofalwyr gyfrannu at drafodaethau person ganolog eu plant trwy'r Gymraeg neu Saesneg gyda staff sydd yn medru'r ddwy iaith.

### 4.3 Y gyfundrefn addysg drochi

Er mwyn i bolisi iaith yr Awdurdod fod yn gynhwysol, darperir gwasanaeth arbenigol o fewn y sir, sef Y Gyfundrefn Addysg Drochi. Ers ei sefydlu ar ei newydd wedd ym mis Ionawr 2023 ceir chwe lleoliad strategol ar draws y sir sy'n darparu gwasanaeth i hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg.

Er mwyn sicrhau cyfleoedd modern a chyfoes i'r dysgwyr ymarfer geirfa a phatrymau iaith yn y canolfannau trochi mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi wedi cydweithio gydag unigolion a chwmni allanol i greu pentref rhithwir arloesol. Mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu gydag arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun newydd hwn yn seiliedig ar bentref dychmygol o'r enw Aberwla ac mae'n ymgorffori patrymau iaith penodol o fewn y continwwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. Mae'n gynllun perthnasol i'r unfed ganrif ar hugain ac yn adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Dyma brosiect sy'n galluogi hwyrddyfodiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rhithwir i ymarfer patrymau iaith mewn amrywiol leoliadau yn y pentref. Ar y platfform digidol hwn caiff y dysgwyr gyfle i chwarae gemau gyda'i gilydd, e.e. wrth lenwi eu basged yn yr archfarchnad neu trwy ddarllen cyfarwyddiadau a dilyn rhestr siopa. Cânt hefyd gyfarfod cymeriadau a chreaduriaid gwahanol i'r arfer ar Fferm Tyddyn Swnllyd ac aros am noson neu ddwy yn y Cae Glampio. Yn ogystal cânt dreulio amser yn y ganolfan hamdden, yr amgueddfa neu helpu Ceri'r mecanic yn y Garej. Hefyd mae'n bosib benthyg drôn o'r siop gajets i hedfan uwchben y pentref i ymarfer patrymau gorchmynnol a chyfeiriadau, e.e. de a chwith, ymlaen ac yn ôl.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i Wynedd rannu'r adnodd hwn yn genedlaethol ac wedi rhyddhau cyllid i hwyluso hyn. Mae'r awdurdod yn falch o'r cyfle i'w rannu er budd dysgwyr a chefnogi nod y Llywodraeth yn Cymraeg 2050 ar hyd a lled Cymru. Mae croeso i bob awdurdod yng Nghymru i ddefnyddio'r adnodd hwn trwy gysylltu â canolfaniaith@gwynedd.llyw.cymru

Mae adnoddau amlgyfrwng i atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa yn werthfawr, yn enwedig adnoddau digidol rhithwir sy'n apelio i blant a phobl ifanc. Mae'r adnodd hwn

yn gyfrwng i atgyfnerthu'r medrau angenrheidiol i alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Yr hyn sy'n dod yn amlwg yw'r diddordeb sydd gan y dysgwyr yn yr adnodd. Mae'n apelio'n fawr at hwyrddyfodiaid o'r cynradd i'r uwchradd. Mae'r elfen rithwir yn fodd i alluogi'r dysgwyr i ymgolli yn y gweithgaredd ac wrth gamu ar y platfform maent yn hapus i roi cynnig arni i gyfathrebu trwy'r Gymraeg. Mae'r elfen o hwyl a'r pleser sydd ynghlwm â'r adnodd yn sicr yn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu datblygiad ac yn gyfrwng i normaleiddio'r Gymraeg a'i gwneud yn gyfoes yn y maes rhithwir a digidol.

Adnodd blaengar arall gwerth ei rannu yn genedlaethol yng nghyd destun addysg Gymraeg yw'r podlediad 'Am filiwn', sydd yn trin a thrafod agweddau ar fyd athro sy'n arwain at gynyddu a datblygu disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg ac anelu at greu miliwn o siaradwyr. Mae'r podlediad hwn yn mynd o dan groen addysg drochi a'r hyn sydd yn digwydd yn y canolfannau iaith o fewn y Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn y podlediad mae rhai o'r dysgwyr a'u rhieni yn rhannu eu profiadau wrth iddynt fynychu'r unedau trochi iaith yng Ngwynedd i ddysgu Cymraeg. Yn ogystal mae athro profiadol yn sgwrsio am y prif egwyddorion trochi sydd wedi profi'n llwyddiannus o fewn Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd. Dyma adnodd gwerthfawr i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs hyfforddi athrawon, i athrawon newydd gymhwyso neu i athrawon ar ddechrau eu gyrfa i godi ymwybyddiaeth ac i ddysgu am egwyddorion a strategaethau trochi effeithiol. Datblygwyd y Podlediad Am Filiwn (ypod.cymru) mewn cyfres o bodlediadau ar gyfer AGA, Prifysgol Bangor mewn cydweithrediad gyda sefydliadau Addysg Gychwynnol Athrawon Cymru trwy nawdd Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 5. ARGYMHELLION ESTYN

5.1 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu yn strategol ar bob agwedd o'u gwaith a bod ganddynt oruchwyliaeth addas ac ystyriaeth lawn o risg ynghylch agweddau pwysig sydd wedi codi yn ystod yr arolygiad.

5.2 Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion.

5.3 Cryfhau'r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.

## 6. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:-

- ddarparu sylwadau ar gynnwys adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd;
- ystyried unrhyw drefniadau i graffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad yn amserol.

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Gwynedd

**Swyddfa'r Cyngor**
**Stryd y Jêl**
**Caernarfon**
**LL55 1SH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Gwynedd

Mae gan Gyngor Gwynedd yng Ngogledd Orllewin Cymru gyfanswm poblogaeth o tua 117,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 95 o ysgolion prif ffrwd. Mae 79 o ysgolion cynradd, 12 ysgol uwchradd a dwy ysgol pob oed. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnal dwy ysgol arbennig. Dechreuodd y Prif Weithredwr ar ei swydd ym mis Ebrill 2021 a phenodwyd y Pennaeth Addysg yn Nhachwedd 2017. Mae Arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei rôl ers Mai 2017 a dechreuodd yr Aelod Cabinet ar gyfer Addysg ar y swydd hon ym mis Mai 2022.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2013. Mae Cyngor Gwynedd yn un o chwe awdurdod lleol o fewn gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol y gogledd (GwE). Yn 2022-2023, mae cyllideb addysg net yr awdurdod lleol tua £121,488,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2022-23 yw £5,277, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o £5,032.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Dyma beth o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc Gwynedd:

- Dros gyfnod o dair blynedd, mae 13.5% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 23%. Mae 8.2% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 13.3%.
- Mae cyfanswm o 275 o blant yng ngofal yr awdurdod lleol.
- Mae gan 8.2% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu addysgol arbennig (Gweithredu Ysgolion).
- Mae gan 8.8% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu addysgol arbennig (Gweithredu ar yr Ysgol a Mwy).
- Mae gan 2.7% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu addysgol arbennig (Datganiad).
- Mae gan 1.1% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol).
- Mae gan 1.4% o ddisgyblion 5 i 15 oed Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B neu C).
- Mae 63.4% o ddisgyblion 5 oed neu hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 15.6.

## Crynodeb

Nod arweinwyr Cyngor Gwynedd yw sicrhau'r cychwyn gorau i blant a phobl ifanc y sir. Mae addysg yn flaenoriaeth glir yng nghynlluniau'r Cyngor ac mae rhoi anghenion trigolion y sir wrth galon gwaith yr awdurdod yn greiddiol i'r 'Ffordd Gwynedd' o weithio. Mae staff yr awdurdod yn coleddu egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' ac yn ymdrechu i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn eu gwaith o ddydd i dydd.

At ei gilydd a thros amser mae deilliannau arolygiadau o ysgolion a lleoliadau addysg eraill Cyngor Gwynedd yn gryf. Mae'r awdurdod yn gweithio'n gynhyrchiol gyda gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol y gogledd (GwE) er mwyn cefnogi darparwyr ac mae gan swyddogion yr awdurdod a GwE adnabyddiaeth dda ohonynt. Yn ddiweddar, maent wedi cryfhau eu systemau casglu a rhannu gwybodaeth ac mae hyn wedi gwella ansawdd y trafodaethau am ddarparwyr unigol. Mae blaenoriaethau GwE yn seiliedig ar flaenoriaethau ysgolion y rhanbarth. Mae hyn yn helpu'r gwasanaeth i ymateb yn addas i anghenion darparwyr ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol yn bwrpasol. Yn gyffredinol, mae'r ymyrraeth i gefnogi ysgolion sydd yn peri pryder yn effeithiol ond mewn ychydig iawn o achosion nid yw wedi bod yn ddigon amserol.

Mae lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn elwa o'r gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion bregus sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi iddynt adael yr ysgol. Yn hanesyddol, roedd cyfraddau presenoldeb ysgolion Gwynedd yn gryf, ond nid ydynt yn cymharu'n dda â chyfraddau cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhannol am nad oes digon o ffocws strategol ar fonitro na hyrwyddo presenoldeb, yn enwedig felly presenoldeb grwpiau fel disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi cryfhau dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, mae mwy o gapasiti i gefnogi'r disgyblion hyn ac mae'r trefniadau rheoli yn fwy clir. Fodd bynnag, nid yw statws na'r camau mynediad ar gyfer yr hybiau cefnogi ymddygiad yn gwbl eglur. Yn ogystal, nid oes gan uwch-arweinwyr drosolwg strategol o'r deilliannau na natur nac ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae hybu'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth amlwg i'r awdurdod a'r gwasanaeth addysg. Mae'r awdurdod yn buddsoddi'n helaeth er mwyn sicrhau mynediad i addysg a phrofiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i holl blant a phobl ifanc y sir. Mae'r canolfannau trochi yn arbennig o lwyddiannus o ran galluogi hwyrddyfodiaid i'r iaith i gaffael yn y Gymraeg. Mae'r staff yn y canolfannau hyn hefyd yn darparu hyfforddiant buddiol i staff o fewn ysgolion a lleoliadau prif lif ar sut i gefnogi'r disgyblion hyn.

Nodwedd gref o waith yr awdurdod o ran y Gymraeg yw'r ystod o adnoddau gwerthfawr cyfrwng Cymraeg mae staff yr awdurdod wedi'u datblygu. Mewn ymateb i'r prinder cyffredinol yn y maes hwn, maent wedi datblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu neu addasu adnoddau sydd yn briodol i gyd-destun yr awdurdod yn ogystal a sicrhau hawliau cyfieithu ar gyfer adnoddau rhyngwladol. Mae staff y

gyfundrefn drochi wedi datblygu adnodd rhithwir blaengar i ymarfer patrymau iaith a geirfa a phodlediadau pwrpasol ar fanteision dysgu Cymraeg.

Mae’r awdurdod yn darparu arlwy eang o gyrsiau ôl-16 sydd yn ymateb i anghenion ieithyddol ac economaidd y sir. Mae Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn yn cydweithio’n effeithiol er mwyn darparu ystod o gyrsiau i ddisgyblion ar draws amrywiaeth o leoliadau. Gall hyn achosi heriau teithio i ddisgyblion ac mae’r awdurdod yn darparu tocyn teithio am ddim er mwyn lliniaru hyn. Ers rhai blynyddoedd, mae’r awdurdod wedi bod yn adolygu trefniadau addysg ôl-16 Arfon ond mae’r broses hon wedi bod yn araf.

Mae enghreifftiau cadarnhaol o arweinwyr yn rhoi ar waith strategaethau buddiol sydd wedi arwain at welliannau. Mae’r rhain yn cynnwys strategaeth ddigidol yr awdurdod, y gwaith ar foderneiddio ysgolion a chryfhau’r ddarpariaeth drochi. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon strategol wrth fynd i’r afael â phob agwedd o’u gwaith. Yn benodol, nid yw eu gwaith gwella wedi bod yn ddigon effeithiol o ran y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, gwella presenoldeb nac adolygu’r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon.

Mae trefniadau diogelu o fewn y gwasanaeth addysg yn gyffredinol gadarn. Mae swyddogion yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn y maes ac yn cyd-weithio’n effeithiol gyda swyddogion gwasanaethau plant. Rhoddir cefnogaeth werthfawr i ddarparwyr o ran diogelu ac mae ansawdd gweithredu Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru yn drylwyr iawn.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o’r sefyllfa ariannol o fewn y gwasanaeth addysg. Yn hanesyddol, mae’r awdurdod wedi llwyddo i warchod y gwasanaeth rhag toriadau ond mae hyn wedi profi’n fwy heriol yn sgil yr heriau ariannol cyfredol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu yn strategol ar bob agwedd o’u gwaith a bod ganddynt oruchwyliaeth addas ac ystyriaeth lawn o risg ynghylch agweddau pwysig sydd wedi codi yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion

A3 Cryfhau’r ddarpariaeth i ymateb i anghenion disgyblion â chanddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd gan y broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos yn gysylltiedig â'i gwaith yn datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd, ac ar gyfer trochi iaith. Bydd yr astudiaeth yn cael ei rhannu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, a achosodd atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd achosodd y pandemig newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau. Effeithiodd hyn hefyd ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16, ond rydym wedi ail-ddechrau derbyn y math yma o ddata yn ddiweddar. Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar ble mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

At ei gilydd a thros amser, mae deilliannau arolygiadau o ysgolion Gwynedd yn gryf. Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020 arolygom 46 o leoliadau. Mae hyn yn cynnwys 35 ysgol gynradd, naw ysgol uwchradd, un ysgol pob oed ac un ysgol arbennig. Ar y cyfan, roedd deilliannau'r arolygiadau yn gadarnhaol, yn enwedig felly yn yr ysgolion cynradd. O'r ysgolion cynradd, barnwyd bod angen dilyniant mewn dim ond tair ohonynt. O'r ysgolion uwchradd a phob oed a arolygwyd, barnwyd bod angen dilyniant mewn pedair ohonynt, gan gynnwys gweithgarwch dilynol statudol mewn dwy o'r ysgolion hyn. Barnwyd bod angen mesurau arbennig ar un ysgol, gwelliant sylweddol ar ysgol arall ac adolygiad gan Estyn ar ddwy ysgol. Bellach, yn dilyn gwelliannau, nid yw'r un o'r ysgolion hyn angen gweithgarwch dilynol. O Fedi 2019 (pan newidiwyd y drefn ar gyfer arolygu yn y sector) arolygom 11 lleoliad meithrin nas cynhelir ond ni roddwyd yr un ohonynt mewn categori dilynol.

Ers Chwefror 2022, pan ail-ddechreuom arolygu ysgolion yn dilyn y pandemig, mae 25 o leoliadau wedi cael eu harolygu. Mae hyn yn cynnwys naw ysgol gynradd, un ysgol uwchradd a 15 meithrinfa nas cynhelir. Yn gyffredinol, mae'r deilliannau yn gadarnhaol a ni farnwyd bod angen gweithgarwch dilynol statudol ar unrhyw leoliad. Doedd dim dilyniant ar gyfer y meithrinfeydd nac ar gyfer saith ysgol gynradd. Barnwyd bod angen adolygu gan Estyn ar ddwy ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Rhwng 2017 a 2019, roedd perfformiad y mwyafrif o ysgolion uwchradd Gwynedd yn well neu'n debyg i ddisgwyliadau yn llawer o'r dangosyddion perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4. Roedd perfformiad lleiafrif o ysgolion uwchradd yn is neu'n sylweddol is na'r disgwyl. Perfformiodd disgyblion Gwynedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gyson well na chyfartaledd Cymru mewn llawer o ddangosyddion perfformiad allweddol rhwng 2017 a 2019. Roedd perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn y dangosydd 5 gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth ychydig yn is na chyfartaledd Cymru dros yr un cyfnod.

Roedd y farn ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o arolygiadau Gwynedd yn ystod y cylch arolygu o Fedi 2017 hyd Mawrth 2020. O'r 46 ysgol arolygwyd yn y cyfnod hwn, fe gafwyd lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well ym mron bob un.

Yn hanesyddol a chyn y pandemig, roedd cyfraddau presenoldeb ysgolion Gwynedd yn gryf. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraddau presenoldeb presennol, yn enwedig yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yr awdurdod, yn cymharu'n dda â chyfraddau cenedlaethol. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oes ffocws digonol gan yr awdurdod ar y prosesau tynn a chlir oedd ar waith i hyrwyddo presenoldeb cyn y pandemig. Mae'r awdurdod wedi adnabod yr angen i ail-sefydlu'r gwaith strategol i hyrwyddo presenoldeb. At ei gilydd, mae'r arweinyddiaeth wedi bod yn araf yn adnabod yr angen i ail-flaenoriaethu'r gwaith hwn. Mae'r swyddogion yn dadansoddi ac adrodd ar bresenoldeb fesul ysgol, ond nid ydynt yn dadansoddi nac yn monitro data presenoldeb yn ddigon fforensig. Er enghraifft, nid ydynt yn dadansoddi presenoldeb grwpiau penodol o ddysgwyr, ac o'r herwydd nid oes ganddynt afael sicr ar dueddiadau a phatrymau presenoldeb grwpiau, megis disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn nhair o'r pum mlynedd hyd at 2021 roedd y raddfa waharddiadau parhaol yn is neu'n debyg i'r raddfa genedlaethol. Dros yr un cyfnod, cododd y raddfa waharddiadau pum niwrnod neu lai yn raddol o fod yn sylweddol islaw'r raddfa genedlaethol i fod yn debyg iawn yn 2021. Roedd y raddfa waharddiadau dros bum niwrnod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn nhair o'r pum mlynedd dros y cyfnod hwn.

Mae cyfleoedd achlysurol i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau corfforaethol. Er enghraifft, ymgynghorwyd â phlant yn yr adolygiad mewnol diweddar o'r gwasanaethau addysg a phlant. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn holi barnau pobl ifanc ynghylch eu hanghenion a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt ac yn addasu a datblygu'r gwasanaeth yn sgil hyn. Mae swyddogion yr awdurdod wedi dechrau datblygu dulliau mwy ffurfiol a rheolaidd o gyrchu barnau plant a phobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hyrwyddo a chefnogi lles disgyblion trwy amrywiaeth o weithgareddau buddiol. Trwy'r gwaith hwn mae pobl ifanc yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau lleol a'u cyfoedion. Er enghraifft, trefnasant 'Ŵyl Llesiant' i hybu iechyd meddwl a lles pobl ifanc.

**Cameo – Yr Ŵyl Llesiant**

Mewn ymateb i ddymuniadau pobl ifanc, bu i weithwyr ieuenctid eu cefnogi i arwain ar gynllunio gŵyl llesiant er hybu iechyd meddwl a lles pobl ifanc a darparu mynediad at wybodaeth a chefnogaeth gan ystod o wasanaethau. Datblygodd yr ŵyl i fod yn ddigwyddiad wythnos o hyd ledled y sir. Roedd 31 o sefydliadau ynghlwm â'r ŵyl a chynhaliwyd 49 o sesiynau amrywiol yn ystod yr wythnos. Yn ogystal, dosbarthwyd dros 700 o flychau lles i bobl ifanc.

Mae gweithwyr ieuenctid wedi eu lleoli ym mhob ysgol uwchradd am gyfnodau penodol bob wythnos. Maent yn cydweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn adnabod a chefnogi disgyblion bregus trwy ddarparu mynediad at weithgareddau a chyngor gwerthfawr. Cefnogant y bobl ifanc hyn trwy gynnig mynediad at gefnogaeth fwy dwys a phersonol. Mae eu gwaith yn cyfrannu at sicrhau bod disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn symud ymlaen yn briodol at y camau nesaf o ran eu haddysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Bu nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 4 or 5 mlynedd diwethaf.

## Gwasanaethau addysg

**Pa mor drylwyr y mae'r awdurdod lleol yn herio perfformiad ysgolion ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ac amserol i'w helpu i wella?**

Mae adran addysg Gwynedd yn cydweithio'n agos ac effeithiol gyda gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol y gogledd (GwE) er mwyn gwella'r ddarpariaeth mae ysgolion yr awdurdod yn ei gynnig. Mae dealltwriaeth gytûn o rolau pawb ac mae swyddogion yn cydweithio'n glos a chynhyrchiol fel un tîm.

Mae gan swyddogion yr adran addysg a GwE feddylfryd gadarnhaol yn seiliedig ar gefnogi ysgolion i wella trwy weithio ochr yn ochr gyda'u harweinwyr er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth a chynllunio gwelliant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o weithgareddau sy'n deillio o dystiolaeth uniongyrchol, fel craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi er mwyn dod i farn am ansawdd y ddarpariaeth ac adnabod llwyddiannau a meysydd i wella.

Dros amser, mae swyddogion yr awdurdod wedi derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad ysgolion, ac at ei gilydd, maent wedi gwneud defnydd addas o'r wybodaeth hon. Yn ddiweddar mae swyddogion GwE wedi cryfhau'r prosesau rhannu gwybodaeth trwy ddefnyddio meddalwedd penodol. Mae hyn wedi galluogi swyddogion yr awdurdod i gael mynediad rhwydd at ystod gynhwysfawr o wybodaeth gyfredol am yr holl ysgolion. O ganlyniad, mae gan swyddogion addysg yr awdurdod a swyddogion GwE adnabyddiaeth dda o ysgolion yr awdurdod. Maent yn adnabod prif gryfderau a meysydd gwella ysgolion yn gywir. Mae GwE yn darparu arlwy gynhwysfawr o gefnogaeth berthnasol i ysgolion Gwynedd, ac mae cynllun cefnogi unigol ar gyfer bob ysgol sy'n tynnu ar yr arlwy hwn. Yn ogystal, maent yn trefnu ymyrraeth ychwanegol fel bo angen.

Mae swyddogion yr awdurdod a swyddogion GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ysgolion unigol, clystyrau a themâu cyffredinol. Maent yn trafod anghenion ysgolion ar wahanol haenau yn ystod cyfarfodydd o'r Bwrdd Adnabod Angen, y Bwrdd Cefnogi Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o drothwyon a sbardunau penodol i ddyrchafu ysgolion lle mae pryderon yn cynyddu. Trwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol, mae uwch-swyddogion a'r aelod cabinet addysg yn cyfrannu at y trafodaethau hyn ac yn herio'r swyddogion am effaith eu gwaith i gefnogi ysgolion. Mae'r trefniadau rhannu gwybodaeth newydd wedi cyfrannu at welliant diweddar yn ansawdd a miniogrwydd y trafodaethau yn y cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw'r ymyrraeth i gefnogi ysgolion sy'n achosi pryder wedi bod yn ddigon amserol. Yn ogystal, nid yw swyddogion yr awdurdod bob amser yn gwneud defnydd digon strategol o wybodaeth am bresenoldeb disgyblion, gan gynnwys grwpiau o ddisgyblion, er mwyn herio ysgolion i wella'r agwedd hon.

Mae GwE yn adnabod blaenoriaethau lefel uchel addas trwy eu Cynllun Busnes Rhanbarthol, sydd yn seiliedig ar eu hadnabyddiaeth o anghenion ysgolion unigol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Cyd-Bwyllgor, sydd yn cynnwys Aelod Cabinet Addysg Awdurdod Lleol Gwynedd, a'r Bwrdd Rheoli sy'n cynnwys Pennaeth Addysg yr awdurdod. O ganlyniad, gall yr awdurdod sicrhau bod yr hyn y mae GwE yn ei gynnig yn ymateb yn agos i ofynion lleol yr awdurdod.

Mewn ychydig iawn o achosion, mae'r awdurdod yn adnabod blaenoriaethau lleol ychwanegol, sef agweddau lle maent angen cefnogaeth ychwanegol tu hwnt i'r hyn sydd ar gael trwy arlwy canolog GwE. Yn achos Gwynedd, mae'r awdurdod wedi adnabod bod anawsterau recriwtio arweinwyr yn golygu bod angen adnabod darpar arweinwyr y dyfodol yn gynt a chynllunio olyniaeth mewn arweinyddiaeth ar bob lefel ac ar draws y sectorau. Yn ddiweddar, mae GwE wedi cynllunio camau gweithredu priodol i gefnogi'r maes yma, sy'n mynd tu hwnt i'r arlwy eang o hyfforddiant ar gyfer arweinwyr sydd eisoes yn ei le.

Mae gan GwE gynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu addysgu. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo cydweithio ysgol-i-ysgol yn effeithiol, er enghraifft wrth i ysgolion cynradd gydweithio'n agos mewn clystyrau, ac wrth i ysgolion uwchradd ac arbennig gydweithio gyda rhai eraill ar draws y rhanbarth mewn 'cynghreiriau' o ysgolion sydd â chyd-destun tebyg. Maent wedi sefydlu partneriaethau defnyddiol er mwyn datblygu medrau arfarnu arweinwyr, er enghraifft wrth iddynt graffu ar waith disgyblion ar y cyd gyda chydweithwyr o ysgolion eraill.

Mae'r awdurdod yn dal y rhanbarth i gyfrif yn briodol am ansawdd ac effaith ei gwaith trwy'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor. Mae aelodau etholedig yn herio swyddogion GwE yn addas trwy gyfarfodydd craffu.

**Pa mor dda y mae'r awdurdod yn cynorthwyo pobl ifanc i gael addysg neu hyfforddiant ôl-16 addas?**

Dyhead yr awdurdod lleol yw sicrhau addysg ôl-16 o safon uchel ble mae dewis eang o gyrsiau a chymwysterau sy'n ymateb i anghenion yr economi leol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer holl ddysgwyr Gwynedd. Sefydlwyd Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn i weithredu'r weledigaeth hon. Mae'r consortiwm yn cynnwys ysgolion ble mae chweched dosbarth, coleg addysg bellach sydd â safleoedd ym

Mangor, Glynllifon, Pwllheli, Dolgellau a Llangefni ac awdurdodau lleol Gwynedd a Môn. Golyga'r gwaith partneriaeth gwerthfawr hyn bod ystod helaeth o gyrsiau ar gael i ddysgwyr. Yn ogystal, mae cynnig hyfforddiant gwaith addas trwy waith y coleg addysg bellach i hwyluso prentisiaethau a chynlluniau twf swyddi. Mae'r ddwy ysgol arbennig yn cydweithio gydag ystod o bartneriaid, megis Antur Waunfawr i ddiwallu anghenion eu dysgwyr ôl-16. Maent yn trefnu ymweliadau a phrofiadau i gefnogi dysgwyr i gael mynediad at amrediad o gyfleoedd, megis cyfleoedd i ddatblygu medrau cymdeithasol a sgiliau bywyd. Yn 2018, dechreuodd Cyngor Gwynedd broses ymgynghori ar addysg ôl-16 ardal Arfon. Er bod yr awdurdod wedi ail-gydio yn y broses hon wedi'r pandemig, mae'r camau nesaf o ran trefn addysg ôl-16 Arfon yn parhau'n annelwig ac mae'r broses wedi bod yn araf.

Mae'r ffordd cynigir addysg ôl-16 o fewn y consortiwm yn amrywio. Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion ardaloedd Meirion a Dwyfor chweched dosbarth. Darperir cyrsiau academaidd a galwedigaethol ar bob lefel gan y coleg addysg bellach. Mae gan Ysgol Godre'r Berwyn chweched dosbarth bach. Mae'n cydweithio gydag 'Esgol' a cholegau addysg bellach i ddarparu cyrsiau safon uwch a phynciau galwedigaethol megis amaethyddiaeth. Mae gan holl ysgolion uwchradd Arfon chweched dosbarth ble darperir cyrsiau safon uwch yn bennaf. Mae gwaith partneriaeth gwerthfawr rhwng yr ysgolion hyn, y coleg addysg bellach ac ysgolion Môn i ehangu'r arlwy lefel 3 ar gyfer eu dysgwyr. Mae dysgwyr Arfon sydd am astudio cyrsiau mynediad, lefel 1 neu lefel 2 yn trosglwyddo i'r coleg addysg bellach. Golyga'r amrywiaethau yn y ddarpariaeth a maint daearyddol yr awdurdod bod rhaid i rai dysgwyr deithio cryn bellter er mwyn cael mynediad at eu dewis gyrsiau. Mae'r awdurdod yn sicrhau tocyn teithio am ddim i ddysgwyr ôl-16 i hwyluso hyn.

Mae gan y consortiwm strwythur rheoli cynhwysfawr. Mae'n cynnwys rheolwr ar ran yr awdurdod lleol, bwrdd arweiniol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau a'r coleg addysg bellach, grŵp strategol penaethiaid uwchradd a grwpiau dirprwyon cwricwlwm Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Rhennir gwybodaeth rhwng partneriaid yn effeithiol trwy ddefnyddio gwefan y consortiwm. Er enghraifft, wedi i ysgolion nodi enwau disgyblion ar gyfer cyrsiau partneriaeth, mae adran drafnidiaeth yr awdurdod yn defnyddio'r wybodaeth i drefnu cludiant. Mae'r bwrdd arweiniol a'r grŵp strategol yn arfarnu ansawdd y cyrsiau a ddarperir trwy bartneriaeth yn briodol. Maent yn cynhyrchu adroddiadau sy'n ystyried deilliannau dysgwyr, mesurau cwblhau a disgrifiadau ansoddol o'r ddarpariaeth. Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, mae adroddiadau yn cynnwys sylwadau am ansawdd y dysgu a'r addysgu o arsylwadau gwersi. Defnyddir y wybodaeth hon yn bwrpasol i benderfynu os dylid cynnig cwrs neu beidio. Fodd bynnag, nid yw'r consortiwm yn caffael barn dysgwyr ôl-16 am ansawdd y ddarpariaeth a'u profiadau yn ddigon penodol.

Mae gan ysgolion yr awdurdod drefniadau priodol i helpu disgyblion ddewis eu llwybrau ôl-16. Maent yn cydweithio gyda phartneriaid gan gynnwys y consortiwm addysg ôl-16 a Gyrfa Cymru i gynnig cyngor annibynnol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r ysgolion a'r coleg yn cynnal ystod o weithgareddau gwerthfawr megis ffeiriau gyrfaoedd a chyfleoedd i flasu cyrsiau trwy ymweliadau i'r coleg addysg bellach. Yn ogystal, mae'r consortiwm yn cynhyrchu prosbectws defnyddiol ar gyfer cyrsiau partneriaeth. Mae'r awdurdod wedi cydnabod ei bod hi'n anodd gweld y cynnig cyflawn mewn un lle ac yn gweithio i ddatblygu gwefan i fynd i'r afael â hyn.

Mae gwaith partneriaeth gwerthfawr rhwng y consortiwm a thîm ôl-16 y gwasanaeth ieuenctid i gefnogi dysgwyr bregus i drosglwyddo i addysg ôl-16. Buddsoddodd yr awdurdod arian i sicrhau parhad cynllun i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant neu waith a gafodd ei ariannu'n wreiddiol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. O ganlyniad, mae tîm addysg ôl-16 y gwasanaeth ieuenctid yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i helpu pobl ifanc symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu waith. Mae panel aml-asiantaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i frocera cymorth i'r dysgwyr hyn. Er enghraifft, maent yn sicrhau cefnogaeth ymarferol i ymweld â safleoedd y coleg addysg bellach a chefnogaeth lles ac iechyd meddwl. O ganlyniad, mae'r nifer nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith yn isel.

Penododd yr awdurdod swyddog ansawdd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ôl-16 i sefydlu a datblygu prosesau i gefnogi gweithredu'r Ddeddf ADY newydd. Mae'r swyddog yn cydweithio'n gynhyrchiol gyda'r ysgolion uwchradd a'r coleg addysg bellach i gynllunio cefnogaeth ar gyfer y disgyblion cyntaf fydd yn trosglwyddo i addysg ôl-16 o fewn y drefn newydd ym Medi 2023. Rhennir gwybodaeth yn hylaw gyda'r coleg trwy lwyfan digidol pwrpasol yr awdurdod. Golyga hyn bod trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ADY ôl-16 yn datblygu'n briodol.

**Pa mor effeithiol y mae'r awdurdod yn diwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY)?**

Dros amser, mae prosesau strategol a gweithredol gwasanaethau addysg Gwynedd i ymateb i anghenion disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi gwella yn sylweddol. Erbyn hyn, mae gweledigaeth arweinwyr i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion bregus hyn yn glir ac addas.

Mae uwch reolwyr wedi ail drefnu'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynhwysiad yn briodol. Maent wedi adnabod yr angen i ddarparu'n fwy penodol ar gyfer cefnogi disgyblion bregus a chlustnodi rheolwyr perthnasol i arwain gwahanol agweddau o'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys penodi rheolwr cynhwysiad a chynyddu rôl swyddogion ansawdd ADY i gefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi cynyddu'r capasiti o fewn y gwasanaeth cefnogi ymddygiad allgymorth i gefnogi ysgolion prif lif gyda disgyblion o oedran derbyn hyd at Flwyddyn 11. Mae'r newidiadau hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod nifer y disgyblion sydd mewn addysg ag eithrio yn yr ysgol (EOTAS) yn isel.

Mae gan yr awdurdod ystod o weithdrefnau pwrpasol i gynllunio darpariaeth ac adolygu cynnydd disgyblion ag ADY. Mae'r rhain yn cynnwys y panel ADY a chynhwysiad, y panel dwys, y panel adolygiadau a'r fforwm cymedroli ADY a chynhwysiad. Ar y cyfan, mae pwrpas a chylch gorchwyl llawer o'r gweithdrefnau hyn ynghyd â'r protocol mynediad at wasanaethau yn glir i ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r camau y dylid eu dilyn yn yr ysgol na'r ymyraethau y dylid eu rhoi mewn lle cyn gwneud cais i ddisgybl gael mynediad i'r hybiau cefnogi ymddygiad yr un mor glir.

Mae gwybodaeth werthfawr am ddisgyblion ag ADY ar draws y sir ar gael yn hylaw i randdeiliaid perthnasol trwy lwyfan digidol pwrpasol. Mae hyn yn galluogi ysgolion, arbenigwyr, rhieni a disgyblion i chwarae rhan weithredol wrth gynllunio darpariaeth, monitro, ac adrodd ar gynnydd.

Mae'r gwasanaeth ADY a chynhwysiad yn cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol pwrpasol i athrawon a chymorthyddion dysgu i'w cynorthwyo i ddarparu ymyraethau buddiol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant am ymlyniad ac effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Darperir ystod o adnoddau a rhaglenni ymyrraeth perthnasol i ysgolion i gefnogi lles disgyblion ar draws yr ystod oedran. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth seicoleg addysg wedi paratoi adnoddau gwerthfawr, fel adnoddau meddylgarwch buddiol, er mwyn ceisio dylanwadu'n gadarnhaol ar les disgyblion. Yn ogystal mae'r awdurdod wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i ysgolion ac mae hyn yn nodwedd gref.

Mae protocol a threfniadau 'symud drwy drefniant' yr awdurdod yn briodol ac yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol i ddisgyblion yn y mwyafrif o achosion. Mae trefniadau cynnal disgyblion gydag anghenion meddygol difrifol yn gryf.

Darperir cefnogaeth addas i'r rhan fwyaf o ddisgyblion â chanddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth benodol i gwrdd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ychydig o ddisgyblion mewn pedwar lleoliad amgen. Mae statws y lleoliadau hyn yn annelwig gan nad ydynt yn gofrestredig fel unedau cyfeirio disgyblion er mai fel hynny maent yn gweithredu. Mae Canolfan 'Llechan Lân' ym Mhenygroes yn leoliad addysg tymor byr i ddisgyblion Blwyddyn 5-8. Mae'r ddarpariaeth yn Llechan Lân yn bwrpasol ac mae'r gefnogaeth i'r disgyblion pan maent yn dychwelyd i'w hysgolion yn effeithiol iawn. Mae hyn oherwydd bod y staff arbenigol yno yn rhannu eu harbenigeddau yn llwyddiannus gyda staff yn yr ysgolion prif lif er mwyn cryfhau eu gallu i gefnogi disgyblion ag anawsterau ymddygiadol. O ganlyniad, mae disgyblion sydd wedi mynychu'r adnodd yma yn ail ymgysylltu'n llwyddiannus yn eu mam ysgol yn y rhan fwyaf o achosion.

Ers Medi 2021, mae'r awdurdod wedi gwella ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy gomisiynu dwy ysgol uwchradd i redeg hybiau mewn tair ardal ar draws Gwynedd. Bellach ceir tri hwb addysg amgen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9-11 ym Mangor, Caernarfon a Blaenau Ffestiniog. Yn gyffredinol mae disgyblion sy'n mynychu'r hybiau yn hapus ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'u dysgu. Mae staff yr hybiau yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn y ddarpariaeth a gynigir. Maent yn ymroi i'w cyfrifoldebau gyda chryn fwriad ac ewyllys da er mwyn rhoi profiadau dysgu cadarnhaol i'r disgyblion. Maent yn meithrin perthynas gadarnhaol a chefnogol gyda'r disgyblion a'u rhieni ac mae hyn yn nodwedd arbennig. Maent yn gweithio'n greadigol i geisio rhoi profiadau cwricwlaidd sydd o ddiddordeb i ddisgyblion ac yn cydweithio'n bwrpasol gydag ystod eang o asiantaethau allanol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys swyddogion Gyrfa Cymru, gweithwyr ieuenctid, nyrsys ysgol a swyddogion yr heddlu er mwyn cefnogi'r disgyblion a chynllunio'n ofalus ar gyfer y camau nesaf yn eu bywyd. Cynigir darpariaeth addas, o dan arweiniad athrawon pwnc yr ysgolion comisiwn, i ddisgyblion barhau gyda'u cyrsiau arholiad Cymraeg, Saesneg, mathemateg a rhai elfennau o wyddoniaeth ac ychydig o bynciau neu feysydd eraill. Mae bron pob un disgybl ym Mlwyddyn 11 yn sefyll TGAU neu gymhwyster addas arall yn y pynciau craidd ac ychydig iawn o bynciau eraill.

Mae anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion sy'n mynychu'r hybiau unigol yn amrywiol. O ganlyniad, mae teilwra'r ddarpariaeth i gwrdd ag

anghenion penodol disgyblion unigol o fewn yr hybiau hyn yn her. Mae staff yn ymdrechu i greu awyrgylch gynhaliol bwrpasol ar gyfer dysgu ac i gynorthwyo'r disgyblion i ffynnu'n emosiynol yn yr hybiau. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth ym mhriodoldeb yr adeiladau ac yn amrediad yr adnoddau dysgu yn yr hybiau i ddarparu addysg arbenigol sy'n cefnogi lles ac ymddygiad disgyblion bregus.

Er bod swyddogion ansawdd a swyddogion perthnasol eraill yn rhan o drefniant cychwynnol lleoli disgyblion yn yr hybiau, nid oes cyswllt digon cyson rhyngddynt a rheolwyr yr hybiau i'w galluogi i gefnogi eu gwaith a rhoi arweiniad iddynt. Mae hyn yn cynnwys anghysondeb yn nhrefniadau monitro, sicrhau ansawdd ac asesu risg. O ganlyniad nid oes gan uwch swyddogion gwasanaethau addysg Gwynedd drosolwg strategol o'r deilliannau na natur nac ansawdd y ddarpariaeth yn yr hybiau.

**Pa mor effeithiol yw darpariaeth Gymraeg yr awdurdod o ran diwallu anghenion dysgwyr, ac o ran cyflawni gweledigaeth LlC i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?**

Mae gan yr awdurdod weledigaeth glir o ran sicrhau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion a phobl ifanc Gwynedd drwy gydol eu hamser mewn addysg. Mae hyn yn seiliedig ar sefydlu 'cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth'. Mae Polisi Iaith Gwynedd ynghyd ag ystod o bolisïau perthnasol eraill yn gonglfaen i holl waith yr awdurdod ac yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion dwyieithog hyderus. Er enghraifft, mae blaenoriaethau cynllun 'Gwynedd Gymraeg' a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yn adlewyrchu dyheadau a thargedau allweddol addas dros y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r Fforwm Iaith Addysg yn cyfarfod yn dymhorol i fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a thargedau'r CSGA a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod gan arweinwyr yr adran addysg ac aelodau etholedig ddealltwriaeth gadarn o'r blaenoriaethau. Mae'r CSGA yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws bob sector, gan gynnwys cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a phobl ifanc i ddysgu a defnyddio'r iaith gyda hyder ac fel rhan arferol o fywyd bob dydd. Mae'r cynllun yn nodi targedau priodol ar gyfer hyn, gan gynnwys adnabod heriau ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i gynnal a datblygu medrau Cymraeg y gweithlu trwy gydweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid strategol ac asiantaethau allanol.

Mae gan yr awdurdod berthynas waith dda gydag asiantaethau allanol a mudiadau ymbarél fel y Mudiad Meithrin. Maent yn cydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar trwy sicrhau mynediad at addysg a gofal. Mae prosiectau 'Gwynedd Yfory' yn datgan pwysigrwydd cydweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau'r cychwyn gorau i holl blant y sir. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi sefydlu canolfannau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd penodedig i gefnogi plant a theuluoedd. Mae'r cydweithio llwyddiannus gyda phartneriaid yn gymorth i sicrhau bod bron bob plentyn sy'n mynychu lleoliadau nas-cynhelir yn trosglwyddo i addysg Gymraeg mewn ysgolion.

Mae arweinwyr a swyddogion yn blaenoriaethu datblygu'r Gymraeg trwy fuddsoddi mewn gwella cyfleusterau dysgu. Defnyddiant y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Gwynedd er enghraifft, i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion newydd er

mwyn cynnig addysg gynnar a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru i wella ansawdd adeiladau'r canolfannau trochi iaith yn ogystal ag adeiladu lleoliadau newydd i gefnogi disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n newydd i'r Gymraeg. Mae hyn hefyd yn lleihau'r pellter rhwng cartrefi'r disgyblion a'r canolfannau hyn ac yn cynnig ystod dda o adnoddau a chyfleusterau ar eu cyfer.

Yn lled ddiweddar, mae'r awdurdod wedi diwygio'i Gyfundrefn Addysg Drochi er mwyn sicrhau bod y polisi iaith yn gynhwysol ac yn cefnogi hwyrddyfodiaid, gan gynnwys disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, i gaffael y Gymraeg. O dan arweiniad pwrpasol arweinwyr newydd, mae'r gwasanaeth yn cynnig darpariaeth fuddiol i ddisgyblion cynradd ac uwchradd mewn chwe lleoliad ar draws yr awdurdod. Mae'r cwrs dwys deg wythnos yn cefnogi disgyblion i gaffael ar fedrau ieithyddol buddiol sy'n eu galluogi i ymuno â'u cyfoedion yn eu hysgolion lleol ac i ddefnyddio'r iaith yn ffurfiol ac anffurfiol o fewn eu cymunedau. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth ac arweiniad buddiol i athrawon a chynorthwywyr dysgu i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Er enghraifft, maent wedi hyfforddi bron bob athro a chynorthwywyr dysgu sy'n gweithio mewn dosbarthiadau dysgu sylfaen ar arferion da dulliau trochi.

Elfen gadarnhaol iawn o waith Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yw'r defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol i gyfoethogi profiadau disgyblion a'u sbarduno i ddysgu'r Gymraeg mewn ffordd hwylus.

**Cameo – Defnyddio technoleg ddigidol i annog defnydd o'r Gymraeg**

Mae arweinwyr ac athrawon yn cydweithio gyda chwmni masnachol lleol i greu adnodd rhithwir blaengar sy'n seiliedig ar eu cynllun trochi iaith newydd. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bentref dychmygol Aberwla ac mae'r cyfarpar rhithiol yn cynnig profiad arbennig i ddisgyblion ymarfer patrymau iaith a geirfa. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd effeithiol o hysbysu manteision dysgu Cymraeg a rhannu arferion da trwy bodlediadau pwrpasol, er enghraifft trwy gyfweld cyn-ddisgyblion o ganolfannau iaith a'u teuluoedd er mwyn rhannu eu profiadau o ddysgu'r iaith.

Rhoddir blaenoriaeth glir i sicrhau bod darpariaeth a gwasanaethau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd ar gael trwy'r Gymraeg. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn ddwyieithog. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill, fel y Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod cefnogaeth arbenigol ar gael yn y Gymraeg i ddiwallu anghenion disgyblion ADY a'u teuluoedd.

Anogir y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn briodol trwy weithgareddau'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cyfrannu at wella medrau Cymraeg a Chymreictod y disgyblion yn ogystal â chefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ogystal, mae prosiect rhanbarthol 'Ein Llais Ni' ar y cyd gyda phartneriaid allanol fel Prifysgol Bangor yn gymorth i ddatblygu medrau dysgu ac addysgu medrau llafaredd.

Mae ysgolion yn darparu llawer o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae llawer iawn o ddisgyblion yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Mae hyn yn

adlewyrchu gweledigaeth a pholisi yr awdurdod i ddatblygu disgyblion sy'n gwbl ddwyieithog a hybu manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan yr awdurdod weithdrefnau cadarn er mwyn adnabod medrau ieithyddol y gweithlu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adnabod anghenion hyfforddiant a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen. Mae'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod a rhanddeiliaid eraill fel Prifysgol Bangor a GwE yn cefnogi'r gwaith hwn trwy gynnig cyrsiau penodol ar gyfer yr ystod lawn o staff gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr dysgu a staff gweinyddol ac arlwyo.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr yr awdurdod weledigaeth glir ar gyfer addysg yng Ngwynedd, gyda'r bwriad i sicrhau'r cychwyn gorau posib i blant a phobl ifanc y sir. Mae'r weledigaeth yn cynnwys ffocws bendant ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal at addysg, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg yn awyddus i liniaru effaith tlodi a hyrwyddo cydraddoldeb o ran mynediad at addysg. Amlygir hyn yn glir yng Nghynllun y Cyngor (2023-2028) gyda blaenoriaethau sydd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar leihau costau anfon plant i'r ysgol, ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu i blant a phobl ifanc ac ehangu'r argaeledd at ginio ysgol am ddim i ddisgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn ceisio hyrwyddo mynediad i bobl ifanc at addysg ôl-16. Er enghraifft, yn dilyn ystyried barn pobl ifanc bu i'r awdurdod sicrhau tocynnau teithio iddynt fel y gallent gyrraedd eu mannau dysgu yn rhesymol.

Mae'r Prif Weithredwr yn credu'n gryf yn yr egwyddor o welliant parhaus. Mae wedi bod yn greiddiol i'r gwaith o sefydlu diwylliant a ffyrdd o weithio sydd yn rhoi trigolion wrth galon gwaith yr awdurdod, sef 'Ffordd Gwynedd'. Mae gweledigaeth 'Ffordd Gwynedd' wedi ei rhannu'n effeithiol gyda swyddogion yr awdurdod ac maent yn ymdrechu i arddel 'Ffordd Gwynedd' ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae'r Prif Weithredwr yn hybu a chynnal perthynas weithio effeithiol gyda swyddogion a staff ar draws yr awdurdod, ac yn cynnal sesiynau rheolaidd er mwyn cyfarch eu barn a gwrando ar eu syniadau. Yn ogystal, mae'n meddu ar drosolwg buddiol ynglŷn a chryfderau a meysydd i'w gwella gwahanol agweddau o waith y Cyngor ac mae wedi sefydlu pwrpasau clir i waith adrannau a thimau ar draws yr awdurdod. Trwy hyn, mae'n rhoi cyfeiriad clir i waith arweinwyr, timau ac unigolion o fewn y gwasanaeth addysg.

Mae'r Pennaeth Addysg ac arweinwyr eraill, fel y penaethiaid cynorthwyol, yn deall eu rolau ac yn ymwybodol o'r hyn y maent yn anelu ato er cyflawni eu pwrpasau penodol o fewn y gwasanaeth addysg. Maent yn gosod disgwyliadau uchel i'w timau, gan fodelu a hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gefnogi ysgolion ac yn hwyluso cydweithrediad effeithiol â darparwyr a phartneriaid eraill. Mae rhanddeiliaid, fel penaethiaid ysgolion a phartneriaid allanol perthnasol yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu agored sydd rhwng arweinwyr a swyddogion y gwasanaeth addysg. Gwerthfawrogant y ffaith eu bod yn gwrando ar eu syniadau a'u barn mewn fforymau gwahanol, er enghraifft.

Mae'r awdurdod yn parhau i gryfhau'r aliniad rhwng cynlluniau'r gwasanaethau addysg a Chynllun Y Cyngor, ar ei newydd wedd. Ar hyn o bryd, nid yw'r aliniad yn hollol gydlynus. Er enghraifft, mae blaenoriaeth glir yng Nghynllun y Cyngor o ran lliniaru effaith tlodi ond nid yw'r awdurdod yn monitro presenoldeb disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim. Mae cynlluniau â phartneriaid fel y gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion yn gadarn ac yn cefnogi uchelgais Gwynedd ar gyfer addysg o'r safon orau i'w ddysgwyr.

Wrth gynllunio ar gyfer gwelliant, mae arweinwyr yr awdurdod yn pwysoli cryfderau a meysydd gwelliant gan nodi 'pwrpasau' clir i brif feysydd gwaith y gwasanaeth addysg. Mae'r pwrpasau hyn yn canolbwyntio yn rhannol ar flaenoriaethau corfforaethol y cyngor a'n rhannol ar weithgareddau arferol y gwasanaeth addysg. Gosodir mesuryddion sy'n cyd-fyd â'r rhain yn synhwyrol ar y cyfan, ac sy'n adlewyrchu'r meysydd mwyaf pwysig ar gyfer gwelliant, er nad yw pob un yn ddigon miniog neu'n canolbwyntio'n ddigon amlwg ar ddeilliannau dysgwyr pan yn berthnasol. Mewn rhai cynlluniau gwella, mae camau strategol cynhyrchiol i gyfarch blaenoriaethau, er enghraifft fel oddi fewn y rhaglen moderneiddio ysgolion, ond maent yn llai amlwg mewn cynlluniau a meysydd gwelliant eraill. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi darparu adnoddau ychwanegol yn amserol i gwrdd â dibenion dysgwyr mewn ambell faes, er enghraifft ADY a'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r ffocws ar wella deilliannau presenoldeb dysgwyr ar draws Gwynedd yn ddigon pendant.

Ar y cyfan, mae hanes cadarn gan yr awdurdod o roi ar waith strategaethau buddiol sydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddysgwyr ac yn gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae strategaeth ddigidol y gwasanaethau addysg yn enghraifft dda o welliant sydd wedi deillio o swyddogion yn ymateb yn bwrpasol i lais ymarferwyr ac arweinwyr ysgol. Mae'r cyngor wedi cynllunio'n fwriadus ac yn drylwyr er mwyn cyflwyno cyfleusterau ysgolion modern ym Mangor a'r Bala. Mae cynllunio strategol llwyddiannus hefyd er mwyn cynnal ac ymestyn darpariaeth drochi i hybu'r Gymraeg ar draws Gwynedd. Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth addysg wedi cynllunio'n fwriadus i gytuno trothwyon ymyrraeth gyda'r gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi meddwl yn hyblyg er mwyn cynnig datrysiadau i sefyllfaoedd heriol o fewn yr awdurdod. Er enghraifft, mae'r awdurdod yn wynebu heriau recriwtio mewn ardaloedd gwahanol o'r sir ac wedi cychwyn ystyried sut y gellid creu swyddi mwy deniadol.

Er yr enghreifftiau cadarnhaol hyn o gynllunio strategol effeithiol, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon strategol wrth fynd i'r afael â phob agwedd o'u gwaith. Nid ydynt wedi bod yn ddigon strategol o ran cysoni'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol nac wedi sicrhau digon o oruchwyliaeth na throsolwg o ansawdd y ddarpariaeth bresennol. Er i'r awdurdod gynnal nifer o adolygiadau ynglŷn ag addysg neu hyfforddiant ôl-16 addas, nid yw arweinwyr eto wedi gosod cyfeiriad strategol digon clir ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth hon. Yn ogystal, nid yw arweinwyr wedi ail-gydio yn y gwaith o hyrwyddo a monitro presenoldeb gwell mewn ysgolion yn ddigon bwriadus.

Mae'r awdurdod wedi atgyfnerthu ei systemau monitro a herio perfformiad yn ddiweddar, gan osod egwyddorion cadarn o fewn ei gyfundrefn hunanwerthuso. Er enghraifft, mae sesiynau gwerthfawr ar gyfer sicrhau cynnydd amserol sydd yn

cynnwys yr Aelod Cabinet. Mae diwylliant iach o herio perfformiad yn datblygu ac yn dechrau arwain at gamau gweithredu pellach.

Mae’r cyngor yn ystyried risgiau’n rheolaidd. Mae’r asesiadau risg yn cwmpasu ystyriaethau manwl ar draws nifer o wasanaethau yn yr adran addysg. Yn gyffredinol, mae’r arweinwyr yn lliniaru risgiau yn brydlon a synhwyrol. Serch hynny, nid yw’r adran wedi mynd i’r afael yn gwbl llwyddiannus ag ambell risg yn ymwneud â llesiant a llwyddiant dysgwyr.

O fewn ei raglen waith, mae’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ystyried ystod o faterion perthnasol sy’n wynebu’r gwasanaeth addysg, fel datblygiadau’r cwricwlwm newydd a’r strategaeth i hybu’r Gymraeg.  Erbyn hyn, mae’r cynllunio ar y cyd rhwng y Cabinet a phwyllgorau craffu i gydlynu rhaglenni gwaith sy’n cefnogi penderfyniadau yn gwella. Mae perthynas gynhyrchiol rhwng arweinwyr a swyddogion yr awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu ac mae’r wybodaeth sy’n cael ei baratoi a’i rannu gyda’r pwyllgor bellach yn fwy hylaw a chlir.  Er hyn, cyfyng ar hyn o bryd yw ystyriaeth y pwyllgor craffu o waith y prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor.

Mae gweithdrefnau a pholisi cyson gan y cyngor ar gyfer rheoli perfformiad staff yn fewnol. Mae’n cynnwys yr egwyddor o gyfrifoldeb personol ar unigolion i ddatblygu’n broffesiynol, mewn amgylchedd gynhaliol. Mae’r cyngor yn cynnig ystod dda o hyfforddiant mewnol, secondiadau mewnol a chyfleoedd i elwa o gynigion datblygu arweinwyr gan Academi Cymru a rhaglenni cymell a mentora. Mae’r awdurdod wedi cyflwyno arlwy gwerthfawr o hyfforddiant ar gyfer datblygu’r gweithlu sy’n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae’r gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion yn darparu’n dda ar gyfer datblygiad proffesiynol ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion Gwynedd.

Mae’r pennaeth addysg a’i uwch dim rheolaethol yn ymgymryd â’u rôl statudol i amddiffyn a diogelu plant yn rymus ac effeithiol ac mae arweinwyr perthnasol ar bob lefel yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau. Ceir trefn gadarn i gyfarfodydd a fforymau strategol a gweithredol sy’n ymwneud â materion diogelu. Mae cynrychiolaeth y gwasanaethau addysg yn y prosesau hyn ac fel rhan o'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn gyson a dylanwadol. Mae arweinwyr ar bob lefel wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth gyda swyddogion cyfatebol yn y gwasanaethau plant. O ganlyniad, maent yn cydweithio’n ddeallus a chynhyrchiol er budd plant yr awdurdod.

Mae’r polisi diogelu corfforaethol yn briodol ac mae’r adran Gwasanaethau Addysg yn darparu polisi diogelu safonol buddiol ar gyfer ysgolion ynghyd a nifer fawr o bolisïau a chanllawiau perthnasol eraill. Rhoddir arweiniad clir a chefnogaeth werthfawr a buddiol i benaethiaid ac i bersonau dynodedig ysgolion gan swyddogion perthnasol megis y swyddog dynodedig ar gyfer diogelu mewn addysg. Mae trefniadau hyfforddiant i staff ysgolion ar bob lefel, gan gynnwys i lywodraethwyr, yn gadarn. Mae penaethiaid ysgolion yn croesawu datblygiadau diweddar lle mae’r swyddog dynodedig yn ymweld i wirio ansawdd a herio trefniadau diogelu eu hysgolion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gryfhau y diwylliant o ddiogelu ar draws ysgolion Gwynedd.

Mae ansawdd gweithredu Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru, pan mae honiadau yn erbyn staff proffesiynol, yn hynod gadarn ac yn drylwyr iawn. Mae’r gefnogaeth a’r

her a roddir i ysgolion gan adrannau eraill o'r awdurdod ar faterion diogelu a iechyd a diogelwch yn werthfawr ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys arweiniad clir gan yr adrannau eiddo a phersonél ar faterion penodol ac asesiadau risg. Fodd bynnag nid yw’r awdurdod wedi ystyried risg yn ddigon gofalus ar gyfer yr hybiau cynhwysiad. Mae trefniadau recriwtio diogel yn gadarn a chyson.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o’r sefyllfa ariannol o fewn y gwasanaeth addysg, ac mae swyddogion yn ymwybodol o’r risgiau ariannol. Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o heriau cyllidebol ond nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o’r wybodaeth i lywio defnydd o’i adnoddau yn y tymor canolig a hir. Nid yw’r awdurdod lleol yn gwneud defnydd llawn o ddata cymharol i gymharu costau ei wasanaethau addysg gydag awdurdodau eraill.

Mae'r awdurdod wedi ariannu setliadau cyflog staff ysgolion yn llawn ac eithrio yn 2022-23 lle bu i’r gwir chwyddiant pris trydan a chyflogau cymorthyddion staff gweinyddol yn yr ysgolion yn uwch na rhagdybiaethau gosod y gyllideb. Ariannwyd y costau ychwanegol yma o falansau ysgolion.

Yn y gorffennol, roedd cyllidebau ysgolion wedi eu gwarchod rhag toriadau o gymharu a gwasanaethau eraill o fewn yr awdurdod, ond yn sgil yr heriau ariannol cyfredol gofynnwyd i’r ysgolion wneud cyfanswm o £1.966 miliwn o arbedion yn ystod 2023-24 a 2024-25, sydd yn cyfateb i 2.25% o’r gyllideb flynyddol.

Roedd cyllideb addysg net fesul disgybl yn y chwartel uchaf o awdurdodau Cymru yn 2020/21, sef y flwyddyn ddiwethaf mae’r data ar gael. Yn yr un flwyddyn roedd cyllideb ysgolion arbennig fesul disgybl yn y chwartel isaf yng Nghymru. Er bod holl wariant y Cyngor yn uwch na ei Asesiad Gwariant Safonol, roedd cyllidebu gwasanaethau addysg ychydig yn is na’r asesiad gwaelodlin ar gyfer y gwasanaeth addysg.

Roedd balansau ysgolion, fel mewn awdurdodau eraill, wedi cynyddu'n sylweddol o £4.3 miliwn yn 2019-20 i £16.7 miliwn ar ddiwedd 2021-22. Defnyddiwyd £4.8 miliwn o falansau yn 2022-23, gan leihau y balansau i £11.9 miliwn. Mae gan dair o’r 96 ysgol ar ddiwedd 2022-23 ddiffyg yn eu balansau ariannol o gymharu â’r sefyllfa yn y flwyddyn flaenorol pan roedd gan holl ysgolion yr awdurdod warged. Mae cynlluniau ar y gweill i adolygu ac ymateb i’r diffyg. Mae gan yr awdurdod drefniadau i dderbyn cynlluniau gan ysgolion ar gyfer defnyddio'r balansau ychwanegol ac adfer diffygion.

Mae’r awdurdod yn rhoi cymorth da i reolaeth a chynllunio ariannol ysgolion ac mae ysgolion yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a roddir. Mae’r Fforwm Cyllid Ysgolion yn ystyried materion perthnasol, gan gynnwys gosod cyllideb flynyddol yr awdurdod. Fodd bynnag, nid yw’r fforwm wedi trafod fformiwlâu cyllido yn ddiweddar, ac nid yw wedi’i adolygu’n gynhwysfawr ers 2014. Mae gan yr awdurdod ystod o gytundebau lefel gwasanaeth ac, ar y cyfan, mae nifer uchel o ysgolion yn manteisio ar y rhain. Caiff y cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau eu hadolygu yn gyfnodol.

## Atodiad 1 – astudiaeth achos

**Gwaith Cyngor Gwynedd o ran datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd, ac ar gyfer trochi iaith.**

**Gwybodaeth am yr Awdurdod Addysg Lleol**

Mae gan Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd weledigaeth glir yng nghyd destun addysg trwy gyfrwng Y Gymraeg ar gyfer dysgwyr trwy gydol eu cyfnod ym myd addysg. Mae Polisi Iaith Gwynedd yn anelu at fagu dysgwyr a dinasyddion dwyieithog hyderus. Yng Ngwynedd mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb a'r polisi yn gosod cyfeiriad ac atebolrwydd clir i'r holl ysgolion.

Mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn ymroddedig i gyfrannu tuag at strategaethau a deddfwriaeth cenedlaethol o ran hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, mae'r adran wedi paratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf. Yn unol â'r gofyn statudol mae'r Cyngor hefyd o dan adran 44 Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi llunio a chyhoeddi strategaethau sirol sydd yn amlinellu sut y byddant yn cyfrannu at y nod cenedlaethol a osodir yn Strategaeth Y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, i gynyddu nifer y siaradwyr ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae Strategaeth Iaith sirol Gwynedd (Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23) yn gosod yr ymrwymiad a'r weledigaeth ar gyfer y sir, ac mae gwaith yr Adran Addysg a nodau'r CSGA yn cyfrannu at amcanion y strategaeth sirol honno.

**Datblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad**

Mae'r awdurdod, ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, wedi buddsoddi mewn gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a Ch) canolog. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob darparwr addysg o fewn y sir ar gyfer darparu cefnogaeth a chyngor ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ADY a Ch neu ar gyfer atal yr anghenion hyn rhag datblygu. Mae hyn trwy ddarparu adnoddau, hyfforddiant a mewnbwn uniongyrchol ar gyfer ysgolion a dysgwyr.

Mae'r gwasanaeth ADY a Ch yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog, gyda phob aelod o staff y gwasanaeth yn medru darparu trwy gyfwng Y Gymraeg. Pwysleisir yr angen am ddarpariaeth yn y Gymraeg o fewn y broses recriwtio.

Mae datblygu adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwaith yma, ac mae'r hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu gan y tîm ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir ystod eang o adnoddau pwrpasol sydd yn cael eu datblygu yn barhaus i gyd-fynd â'r angen sydd yn cael ei adnabod, ac i gyd-fynd â'r ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig. Mae hyn yn cynnwys meysydd cynnal ymddygiad, llesiant a iechyd meddwl, anghenion dysgu penodol (llythrennedd a rhifedd), cyfathrebu a rhyngweithio, ac anghenion synhwyraidd, meddygol a chorfforol. Mae gwefan benodol wedi ei sefydlu ar gyfer defnydd rhieni a gofalwyr, a gwefan benodol ar gyfer

staff ysgolion sydd yn eu galluogi i lawrlwytho adnoddau, ynghyd â dosbarth ar lein ar gyfer adnoddau anghenion dysgu penodol. Mae popeth ar y wefan ar gael yn ddwyieithog: www.adyach.cymru. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol ar lein hefyd yn gwbl ddwyieithog fel bod modd cwblhau yn iaith ddewis y teulu.

Golyga'r uchod bod y ddarpariaeth ADY a Ch yn cyd-fynd gyda'r ethos a'r ddarpariaeth addysgu o fewn y sir, ac yn hybu medrau a dwyieithrwydd y dysgwyr o'r cychwyn. Mae'n golygu hefyd bod modd i rieni a gofalwyr gyfrannu at drafodaethau person ganolog eu plant trwy'r Gymraeg neu Saesneg gyda staff sydd yn medru'r ddwy iaith.

**Y gyfundrefn addysg drochi**

Er mwyn i bolisi iaith yr Awdurdod fod yn gynhwysol, darperir gwasanaeth arbenigol o fewn y sir, sef Y Gyfundrefn Addysg Drochi. Ers ei sefydlu ar ei newydd wedd ym mis Ionawr 2023 ceir chwe lleoliad strategol ar draws y sir sy'n darparu gwasanaeth i hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg.

Er mwyn sicrhau cyfleoedd modern a chyfoes i'r dysgwyr ymarfer geirfa a phatrymau iaith yn y canolfannau trochi mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi wedi cydweithio gydag unigolion a chwmni allanol i greu pentref rhithwir arloesol. Mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu gydag arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun newydd hwn yn seiliedig ar bentref dychmygol o'r enw Aberwla ac mae'n ymgorffori patrymau iaith penodol o fewn y continwwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. Mae'n gynllun perthnasol i'r unfed ganrif ar hugain ac yn adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Dyma brosiect sy'n galluogi hwyrddyfodiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rhithwir i ymarfer patrymau iaith mewn amrywiol leoliadau yn y pentref. Ar y platfform digidol hwn caiff y dysgwyr gyfle i chwarae gemau gyda'i gilydd, e.e. wrth lenwi eu basged yn yr archfarchnad neu trwy ddarllen cyfarwyddiadau a dilyn rhestr siopa. Cânt hefyd gyfarfod cymeriadau a chreaduriaid gwahanol i'r arfer ar Fferm Tyddyn Swnllyd ac aros am noson neu ddwy yn y Cae Glampio. Yn ogystal cânt dreulio amser yn y ganolfan hamdden, yr amgueddfa neu helpu Ceri'r mecanic yn y Garej. Hefyd mae'n bosib benthyg drôn o'r siop gajets i hedfan uwchben y pentref i ymarfer patrymau gorchmynnol a chyfeiriadau, e.e. de a chwith, ymlaen ac yn ôl.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i Wynedd rannu'r adnodd hwn yn genedlaethol ac wedi rhyddhau cyllid i hwyluso hyn. Mae'r awdurdod yn falch o'r cyfle i'w rannu er budd dysgwyr a chefnogi nod y Llywodraeth yn Cymraeg 2050 ar hyd a lled Cymru. Mae croeso i bob awdurdod yng Nghymru i ddefnyddio'r adnodd hwn trwy gysylltu â canolfaniaith@gwynedd.llyw.cymru

Mae adnoddau amlgyfrwng i atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa yn werthfawr, yn enwedig adnoddau digidol rhithwir sy'n apelio i blant a phobl ifanc. Mae'r adnodd hwn yn gyfrwng i atgyfnerthu'r medrau angenrheidiol i alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Yr hyn sy'n dod yn amlwg yw'r diddordeb sydd gan y dysgwyr yn yr adnodd. Mae'n apelio'n fawr at hwyrddyfodiaid o'r cynradd i'r uwchradd. Mae'r elfen rithwir yn fodd i alluogi'r dysgwyr i ymgolli yn y gweithgaredd ac wrth gamu ar y platfform maent yn hapus i roi cynnig arni i gyfathrebu trwy'r Gymraeg. Mae'r elfen o hwyl a'r pleser sydd

ynghlwm â'r adnodd yn sicr yn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu datblygiad ac yn gyfrwng i normaleiddio'r Gymraeg a'i gwneud yn gyfoes yn y maes rhithwir a digidol.

Adnodd blaengar arall gwerth ei rannu yn genedlaethol yng nghyd destun addysg Gymraeg yw'r podlediad 'Am filiwn', sydd yn trin a thrafod agweddau ar fyd athro sy'n arwain at gynyddu a datblygu disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg ac anelu at greu miliwn o siaradwyr. Mae'r podlediad hwn yn mynd o dan groen addysg drochi a'r hyn sydd yn digwydd yn y canolfannau iaith o fewn y Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn y podlediad mae rhai o'r dysgwyr a'u rhieni yn rhannu eu profiadau wrth iddynt fynychu'r unedau trochi iaith yng Ngwynedd i ddysgu Cymraeg. Yn ogystal mae athro profiadol yn sgwrsio am y prif egwyddorion trochi sydd wedi profi'n llwyddiannus o fewn Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd. Dyma adnodd gwerthfawr i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs hyfforddi athrawon, i athrawon newydd gymhwyso neu i athrawon ar ddechrau eu gyrfa i godi ymwybyddiaeth ac i ddysgu am egwyddorion a strategaethau trochi effeithiol. Datblygwyd y Podlediad Am Filiwn (ypod.cymru) mewn cyfres o bodlediadau ar gyfer AGA, Prifysgol Bangor mewn cydweithrediad gyda sefydliadau Addysg Gychwynnol Athrawon Cymru trwy nawdd Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol sydd gan Estyn
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol gwasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol sydd gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau yn ôl yr angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

©Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/09/2023

# Adroddiad i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 09 Tachwedd 2023 |
| **TEITL** | Cwmni Byw'n Iach |
| **AWDUR** | Amanda Davies (Byw'n Iach.cyf) /Sioned E Williams |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Nia Jeffreys |

**1.0 Teitl yr Eitem : Diweddariad ar Berfformiad Cytundeb Cwmni Byw'n Iach.cyf**

**2.0 Pam fod angen ei graffu?:**

Mae cyfnod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar incwm canolfannau Byw'n Iach, sydd yn cael eu rhedeg gan y Cwmni.

Mae'r mater wedi ei gynnwys ar Gofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Gwynedd oherwydd y risg y byddai Cwmni Byw'n Iach yn methu parhau i ddarparu gwasanaethau yng nghanolfannau hamdden Gwynedd o ganlyniad i sgil effaith Covid-19 a chynnydd mewn costau byw ar eu hincwm

**3.0 Beth yn union sydd angen ei graffu?:**

- A yw'r cwmni yn darparu gwasanaethau yn unol â'r cytundeb?
- A yw cyfraniad Cyngor Gwynedd yn ddigonol o ystyried y newid yn yr amgylchiadau?
- Pa gamau a gymerir i geisio cynyddu incwm?

**4.0 Beth yw'r cefndir a threfniadau rheoli cytundeb perthnasol?**

4.1 Ar y 1af o Ebrill 2019 fe drosglwyddwyd cyfrifoldebau o ddarparu gwasanaethau hamdden o fewn 12 o Ganolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd i gwmni Byw'n Iach cyf. Cwmni cyfyngedig trwy warrant ydy'r cwmni a Chyngor Gwynedd sydd yn berchen ar y cwmni ac yn sicrhau ei fod bob amser yn gweithredu dros les drigolion y sir.

4.2 Gofynion cyffredinol y contract rhwng Cyngor Gwynedd a Byw'n Iach cyf ydi i ddarparu:

- Rhaglen amrywiol o weithgaredd hamdden, chwaraeon a chymunedol sy'n hygyrch i bawb gan gynnwys y grwpiau difreintiedig a bregus
- Darparu profiad cwsmer a gofal cwsmer o ansawdd uchel yn gyson.
- Sicrhau cydweithrediad effeithiol rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws sector chwaraeon a gweithgaredd corfforol y Sir

- Cefnogi datblygiad a hyrwyddo cyfranogiad trefniadaeth gymunedol, clybiau / grwpiau ac Ysgolion yn y gweithgareddau
- Adolygu a gwella ystod a chwmpas y cynnig yn barhaus, gan fod yn gyson ymwybodol o anghenion cwsmeriaid, cynyddu nifer yr ymwelwyr a boddhad cwsmeriaid, yn enwedig ymhlith y rhai anoddaf eu cyrraedd.
- Cynnal lefelau uchel o lendid ledled yr eiddo.
- Marchnata a hyrwyddo'r Gwasanaeth, yr Adeilad a'r gweithgareddau mewn modd hygyrch, deniadol a phroffesiynol sydd hefyd yn targedu'r rhai lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad a nifer y defnyddwyr
- Annog mwy o drigolion yng Ngwynedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, yn enwedig y preswylwyr hynny sy'n profi mwy o angen iechyd.
- Yn ddarostyngedig i delerau'r prydlesau, cynnal ansawdd yr eiddo.
- Gweithio i wella effeithlonrwydd darparu gwasanaeth yn barhaus, lleihau cost y gwasanaeth i'r Cyngor a'i anelu at leihau'r swm contract cyfredol.
- Chwilio am gyfleoedd i gael cyllid grant i gefnogi datblygiad y busnes a gwella'r gwasanaethau yn barhaus.
- Darparu staff cymwysedig addas sy'n ddigonol i gydymffurfio â phob agwedd o'r contract bob amser.
- Disgwylir yn ôl y contract hefyd i Byw’n Iach ddangos drwy ei Gynllun Busnes sut mae'n cyfrannu at y Weledigaeth Strategol y Cyngor o fewn y Cynllun Gwynedd 2018-2023. Y weledigaeth ydi:
- cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu a byw bywydau llawn yn eu cymuned, mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi. '
- rhoi lles dinasyddion Gwynedd ar flaen ei holl weithgareddau
- ymrwymo i'r egwyddorion yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau yng Ngwynedd.
- sicrhau bod dinasyddion Gwynedd yn gallu “mwynhau bywydau hapus, iach a diogel.”
- Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ei ganolfannau hamdden a'i Raglenni Cytûn yw “Cydweithredu â phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ysbrydoli, cefnogi a galluogi trigolion Gwynedd i fod yn egnïol a byw bywydau iach.”


4.3 Ym mhob blwyddyn ariannol ac fel rhan o’r adolygiad blynyddol a nodir yn Rhan 3 o Atodlen 5 o’r cytundeb bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfarfodydd monitro i weld a yw amcanion Cynllun Busnes Cymeradwy a gofynion cyffredinol y contract yn cael eu cyflawni.

## 5.0 Perfformiad Diweddar Y Cwmni

5.1 Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, cytunodd Cyngor Gwynedd i ddarparu cefnogaeth ariannol ychwanegol i gwmni Byw'n Iach.cyf, a hynny uwchben lefel swm y contract. Roedd yr ymrwymiad wedi gwneud ar sail Cynllun Busnes y cwmni, oedd yn darlunio senario gorau o ddiffyg o £437k, senario canolig o ddiffyg o £655k a senario gwaethaf efo diffyg o £873k. Roedd y Cynllun Busnes yn darlunio senario gorau ar gyfer 24/25 o ddiffyg o £0. Roedd yr ymrwymiad o gefnogaeth ychwanegol yn holl bwysig, gan ei fod yn sail i Archwilwyr Allanol y Cwmni adrodd fod y cwmni'n masnachu'n gyfreithlon.

5.2 Mae Adroddiad Monitro chwarter 2 y Cwmni yn egluro fod y perfformiad wedi bod yn gadarnhaol ers dechrau'r flwyddyn ac uwchben yr hyn oedd wedi darlunio fel y senario gorau yn y Cynllun Busnes, gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor nol ym mis Chwefror 2023. Fel arwydd cyffredinol, erbyn diwedd chwarter 2 eleni gwelwyd 434,000 o ymweliadau â'r canolfannau, sydd yn gynnydd o 45,000 i gymharu â chwarter 2 llynedd. Rydym bellach yn amcangyfrif diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £346k i gymharu â £551k ar ddiwedd 22/23. Mae'r diffyg sydd yn cael ei rhagweld tua £90k yn well na'r hyn yr oedd wedi gynnwys fel y senario gorau yn y Cynllun Busnes. Mae hyn hefyd yn welliant o £30k i gymharu efo Adroddiad Monitro chwarter 1.

Mae'r graff isod yn darlunio incwm y canolfannau eleni i gymharu â'r targed a hefyd perfformiad 22/23.




5.3 Mae'r llif incwm wedi ail adeiladu'n gynt mewn rhai meysydd na'i gilydd. Mae nofio'n gyffredinol yn faes sydd wedi gweld adferiad cryf ac mae gwaith wedi cael ei gyflawni ar draws y sir i gynyddu'r lefel incwm o wersi nofio i'w lefel uchaf erioed. Ar hyn o bryd mae nifer y plant sydd yn derbyn gwersi nofio 16% yn uwch na'r lefel cyn Covid. Mae hyn wedi bod yn bosib ar sail y lefel uchel o alw sydd wedi deillio o'r blynyddoedd Covid yn ogystal ag ymdrechion sylweddol gan y cwmni i recriwtio a hyfforddi athrawon nofio newydd.

5.4 Mae incwm ffitrwydd yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac yn dilyn patrwm tymhorol arferol y sector. Erbyn hyn mae'r lefel aelodaeth yn 86% o'r lefel cyn Covid (i gymharu â 75% yr amser yma llynedd). Pan gaewyd y canolfannau ym mis Mawrth 2020 roedd lefel yr aelodaeth trwy Ddebyd Uniongyrchol ar ei lefel uchaf erioed ac wedi codi yn sgil buddsoddiad sylweddol mewn offer newydd. Roedd y lefel yna wedi cyrraedd yn sgil twf blynyddol, dros gyfnod o ddegawd. Arweiniodd y pandemig i derfynu'r taliadau rheolaidd a chynnig cyfle i aelodau benderfynu os oedden nhw am barhau'n aelodau'n syth wrth ail agor. Roedd canran o'r boblogaeth yn naturiol yn bryderus ar y pwynt yna ac wedi penderfynu atal eu cytundebau, o leiaf dros dro. Felly, mae'n naturiol i ddisgwyl iddi gymryd rhai blynyddoedd i ail adeiladu'r elfen hynny o'r busnes, gan fanteisio'n flynyddol ar yr "uplift" arferol sydd yn digwydd pob Gwanwyn. Mae'r perfformiad diweddar yn fwy cadarnhaol byth, wrth ystyried fod y "galw cudd" (latent demand) yn y sir wedi gostwng o 668 o gwsmeriaid rhwng y cyfnod cyn Covid ac eleni. Mae hyn yn seiliedig ar gyfres o ffactorau gan gynnwys newidiadau mewn demograffeg a'r nifer o gystadleuwyr.

5.5 Mae'r Cwmni wedi blaenoriaethu twf a'r broses o adfer incwm yn eu Cynlluniau Busnes dros y ddwy flynedd diwethaf. Dyma ddetholiad o rai o'r "Gwelliannau" sydd wedi cyflawni i'r perwyl hynny:

- Ail-ddylunio rhaglenni'r Canolfannau Gwlyb er mwyn ymestyn y rhaglen gwersi nofio a chreu dosbarthiadau ychwanegol
- Recriwtio a hyfforddi 80 o athrawon nofio newydd
- Recriwtio a hyfforddi dros 30 o hyfforddwyr ffitrwydd newydd ac uwch-sgilio 31 arall
- Apwyntio Cydlynydd Ffitrwydd i roi ffocws penodol i wella incwm ffitrwydd
- Cyfres o ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu llwyddiannus i hyrwyddo aelodaeth e.e. 12 Diwrnod o ffitrwydd a 12 Diwrnod o Haf, Cynllun Cyflwyno Ffrind, Gwyliau Ffitrwydd ayb.
- Recriwtio 24 o gyflogwyr newydd i'r Cynllun Corfforaethol (i gymharu efo 8 cyn Covid).
- Creu Cynnig Hyfforddiant Personol newydd
- Denu grantiau i wella profiad defnyddwyr e.e. creu stiwdio ffitrwydd newydd ym Mhlas Ffrancon ac ystafell codi pwysau newydd ym Mro Dysynni a gwella gofod newid i bobl anabl a theuluoedd mewn sawl canolfan.
- Denu grantiau i gynyddu capasiti e.e. ail-ddylunio'r ystafelloedd newid Bangor
- Lansio cynnig Join@Home er mwyn hwyluso proses ymaelodi
- Datblygu App newydd a thyfu'r gymuned trwy gyfryngau cymdeithasol amrywiol e.e. dros 11k o ddilynwyr ar FB (y nifer mwyaf o ddilynwyr ymysg darparwyr hamdden Gogledd Cymru)
- Cydweithio gyda chwmni Alliance Leisure i flaenoriaethu cynlluniau i greu ffrydiau incwm ychwanegol (bidiau wedi cyflwyno am gyllid ar gyfer gwaith datblygol)

## 6.0 Heriau ac Anghenion Buddsoddi i Gefnogi Adferiad

6.1 Mae'r cwmni'n parhau i weithio'n galed i adfer, ond mae hefyd yn bwysig nodi fod sawl her yn parhau, gan gynnwys yr argyfwng costau byw. Mae hyn yn gwasgu gallu trigolion lleol i wario ar wasanaethau nad ydynt yn angenrheidiol, megis hamdden. Mae'r twf sydd wedi digwydd hyd yma, wedi gwireddu yn ystod cyfnod heriol tu hwnt i aelwydydd ac i'r sector.

6.2 Mae chwyddiant cyflogau yn y sector cyhoeddus a thu hwnt yn her ychwanegol. Yn draddodiadol mae'r Cwmni / Gwasanaeth, wedi codi ffioedd i gau'r bwlch ar gyfer chwyddiant cyflogau. Ers sefydlu'r cwmni, mae ymdriniaeth chwyddiant cyflogau wedi bod yn wahanol ac mae hynny'n anorfod oherwydd natur cwmni hyd braich o'i gymharu â gwasanaeth sy'n rhan o'r Cyngor. Mae cyllidebau gwasanaethau'r Cyngor yn derbyn cynnydd yn flynyddol i gwrdd â'r chwyddiant mewn cyflogau, ond nid yw'r drefn gyda'r cwmni'r un peth gan fod angen penderfyniad penodol gan y cwmni ar y raddfa cyflog. Mae amcangyfrif chwyddiant ar gyflogau yn rhan anorfod o'r broses gyllidebu er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa gyllidebol ac er mwyn adnabod y blwch ariannol. Petai'r gwasanaeth yn parhau wedi ei fewnoli byddai'n rhaid cymryd camau i ymdrin â'r bwlch, fel mae gwasanaethau'r Cyngor eisoes wedi gwneud. Yn unol â'r cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Byw'n Iach, nid oes gan Byw'n Iach hawl awtomatig i chwyddiant a rhaid i'r cwmni wneud cais i'r perwyl hynny fel rhan o'r drefn cynllunio busnes blynyddol, a sefydlwyd y cytundeb pan oedd cyfraddau chwyddiant llawer is. Mae Bid (gwerth £49,170) i'r perwyl hynny wedi cael ei gyflwyno eleni. Er y bydd yn medru cynnig cymorth o ran yr her chwyddiant ffioedd, ni fydd yn ddigonol i ariannu'r bwlch yn llwyr. Petai'r cais yma'n llwyddiannus, rydym yn rhagweld yr angen i godi ffioedd o tua 7.5%. Mae codi ffioedd ar unrhyw lefel am osod her ychwanegol o ran ein gallu i wasanaethu holl drigolion y sir, ac yn enwedig rhai sydd ar incwm isel. Bydd unrhyw godiadau sylweddol mewn ffioedd yn cario'r risg o arafu neu atal y broses o dwf sydd yn angenrheidiol i adfer.

6.3 Her ychwanegol ydy oed a chyflwr yr offer ffitrwydd. Mae arolwg mewnol diweddar wedi adnabod enghreifftiau niferus o offer mewn cyflwr gwael. Mae'n ymddangos fod prosesau glanhau dwys yn ystod y cyfnod Covid wedi cyflymu dirywiad yr offer, yn sgil defnydd o gemegau glanhau mwy pwerus nag arfer. O dan drefniadau'r contract, Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am adnewyddu prif offer chwaraeon a ffitrwydd y canolfannau. Mae cais wedi cyflwyno i gynnwys buddsoddiad o £1miliwn, i adnewyddu offer ffitrwydd y canolfannau yng Nghynllun Rheoli Asedau nesaf y Cyngor. Mae'r buddsoddiad yma'n allweddol i gynnal incwm a thwf i'r dyfodol. Mae arolygon boddhad cwsmer eleni wedi dangos cynnydd ym mhob maes, ond mae patrwm amlwg, gyda'r lefelau uchaf o foddhad ar sail y staff, a'r lefelau isaf o ran safon yr offer a'r cyfleusterau.

6.4 Mae hefyd yn bwysig nodi nad oes chwyddiant yn cael ei gynnig yn y prif grantiau sydd yn cael ei drosglwyddo i'r cwmni, er mwyn targedu'r rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol i fod yn actif e.e. y Rhaglen Cyfeirio i Ymarfer. Ac yn ddiweddar mae model ariannu newydd Chwaraeon Cymru wedi awgrymu y gall Gwynedd ( yn wahanol i weddill siroedd y Gogledd) weld gostyngiad sylweddol yn ei grant i gyflawni strategaeth Actif Gogledd Cymru'n.

Gall hyn arwain at leihad yn y lefel o wasanaeth sydd yn bosib, i dargedu meysydd megis difreintedd, anabledd ac anghyfartaleddau eraill.

Mae’r bidiau isod, wedi cyflwyno i’r Cyngor eleni, yn ymwneud a chefnogi adferiad y cwmnïau a chydymffurfiaeth a materion iechyd a diogelwch a data.

| **Teitl** | **Gwerth** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| Bid CPI Ar y Contract Sum | £49,170 | Bid barhaol i gyfrannu tuag at y lefel uchel o chwyddiant mewn cyflogau. All gyfrannu at gwtogi codiad ffioedd o 1% (e.e. codiad o tua 7.5% yn lle 8.5%) |
| Bid System CCTV | £72,000 | Bid un tro i osod system CCTV newydd ar draws holl safleoedd y cwmni. Mae’r system gyfredol yn ddiffygiol ac yn cario risg o fethu a chydymffurfio a gofynion iechyd a diogelwch, yswiriant a rheoli data. |

**7.0 Argymhelliad**

7.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i graffu trefniadau Cyngor Gwynedd a Cwmni Byw’n Iach i ddarparu gwasanaethau hamdden yng Ngwynedd.

**Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod**: | 9fed o Dachwedd 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cyng Nia Jeffreys |
| **Swyddog(ion) Cyswllt**: | Llŷr B Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned<br>Bryn Prichard-Jones, Rheolwr Gwsanaeth Morwrol |
| **Adran / Gwasanaeth**: | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |

1. **TEITL YR EITEM**
Rheolaeth Traethau Gwynedd

2. **PAM FOD ANGEN CRAFFU**

- Mae'r mater wedi ei gynnwys ar gofrestr risg yr Adran Economi a Chymuned. Y prif risg ydi diogelwch pobl yn y môr lle gall fod peryglon i fywyd, ynghyd â pheryglon o strwythurau a gwrthrychau ar y traeth.
- Gellid craffu ar y trefniadau ar gyfer rheolaeth traethau, rheolaeth benodol lle mae risg uwch o ran diogelwch.

3. **CEFNDIR**

3.1 Nid yw rheoli traethau ynddo'i hun yn swyddogaeth statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru.

3.2 Fe amlygwyd ansicrwydd am gyfrifoldebau cyfreithiol rheoli traethau mewn adroddiad i'r Asiantaeth Gwylywr y Glannau (Maritime and Coasguard Agency) yn 2019 "Adolygiad o'r cyfrifoldebau ar gyfer diogewlch traethau" sydd ar gael https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-legal-responsibility-for-beach-safety. Nodir yn yr adroddiad fod y fframwaith gyfreithiol ar gyfer diogelwch ar y blaendraeth yn aneglur gyda amryw dylestwyddau nad ydynt yn cyd-fynd. Nodir hefyd y posibilrwydd fod *lacuna* cyfreithiol o ran cyfrifoldebau yn y maes, gan adael i sefydliadau neu awdurdodau lleol gyda thir yn ffinio gyda'r blaendraeth weithredu i raddau helaeth ar gyfrifoldeb moesol neu gymdeithasol yn hytrach na gofyniad cyfreithiol.

3.3 Serch hynny, mae trefniadau rheoli traethau Cyngor Gwynedd yn cael eu darparu gan y Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned. Gall drefniadau a chyfrifoldebau rheoli traethau amrywio o leoliad yn ddibynol ar nodweddion a ffactorau penodol y lleoliad. Mae hefyd ystod o gyfrifoldebau eraill ynghlwm i faterion perchnogaeth a rheolaeth tir sy'n golygu fod gan y Cyngor gyfrifoldeb tuag at rai sydd yn defnyddio tir a chyfleusterau cyhoeddus. Mae'r prif gyfrifoldebau hyn yn cynnwys:

a) Traethau sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd: mae gan y Cyngor gyfrifoldebau am diroedd neu safleoedd yn ei berchnogaeth neu reolaeth. Drwy fod yn berchen tir neu draeth ar gyfer defnydd cyhoeddus, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i sicrhau fod iechyd a diogelwch defnyddwyr y traeth yn cael ei ystyried a'i reoli'n effeithiol, gan asesu a rheoli risgiau yn ddiogel cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl.

b) Prydles Arfordirol gyda Stad y Goron: Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli rhan helaeth o flaen draethau'r sir sydd yn destun prydlesi gyda Stad y Goron. Mae nifer o'r prydlesi wedi dod i ddiwedd eu cyfnod, ond yn parhau ar drefniant 'cario drosodd'.

c) Is-ddeddfau Traeth - Mae is-ddeddfau yn galluogi awdurdodau lleol i ymateb i bryderon neu broblemau ar draethau penodol. Mae'n ofynnol bod is-ddeddfau yn cael eu cadarnhau gan Ysgrifennydd Gwladol, ac mae'r prif is-ddeddfau yng Ngwynedd yn cynnwys:

- Is-ddeddfau Traethau baratowyd gan Gyngor Dosbarth Dwyfor dyddiedig 8fed Ionawr 1990
- Is-ddeddfau Traeth baratowyd gan Gyngor Dosbarth Meirionnydd dyddiedig 1af o Fai 1986
- Is-ddeddfau Promenâd (Abermaw a Thywyn) wnaed gan Gyngor Dosbarth Meirionnydd dyddiedig 1af o Fai 1986
- Is-ddeddfau Cychod Pleser Glan y Môr baatowyd gan Gyngor Dosbarth Dwyfor dyddiedig 28ain o Dachwedd 1978 (yn cynnwys traethau Morfa Bychan, Criccieth, Abererch, Pwllheli, Llanbedrog, Abersoch, Aberdaron, Porth Oer, Porth Dinllaen, Nefyn, Trefor ac Aberdesach.
- Is-ddeddfau Harbwr Pwllheli baratowyd gan Gyngor Dosbarth Dwyfor dyddiedig 2il Ionawr 1980
- Is-ddeddfau Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw baratowyd gan Gyngor Dosbarth Meirionnydd dyddiedig Tachwedd 1986

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am weithredu a rheoli'r Is-ddeddfau uchod.

ch) Cyfarwyddyd Dŵr Ymdrochi **-** Mae'n ofynnol fod gwybodaeth fanwl am ansawdd a phroffil dŵr ymdrochi ar gael i'r cyhoedd ym mhob safle dŵr ymdrochi dynodedig. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol sy'n rheoli dyfroedd ymdrochi arddangos y dosbarthiad dyfroedd ymdrochi a roddir iddo gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mewn rhai safleoedd hefyd mae'n ofynnol fod y Cyngor yn darparu gwybodaeth i rybuddio defnyddwyr os yw answdd dŵr ymdrochi gwael yn cael ei broffwydo.

d) Gorchmyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) – Mae'r Gorchmyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus 2021 yn ymwneud â:

- Pheidio â chlirio neu godi baw ci (Gorchymyn baeddu tir gan gŵn)
- Gadael i gi fynd ar dir lle mae cŵn wedi eu gwahardd (Gorchymyn gwahardd cŵn)
- Peidio rhoi, a chadw ci ar dennyn pan ofynnir i'r person wneud hynny gan swyddog awdurdodedig (Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd).

Mae prif swyddogion y Gwasanaeth Morwrol wedi eu hawdurdodi i gyflwyno dirwyon cosb i droseddwyr.

## 4. TREFNIADAU RHEOLI TRAETHAU YNG NGWYNEDD

4.1 Arfordir Gwynedd yw'r hiraf ymysg awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn cynnwys nifer ac amrywiaeth o draethau. Mae'r arfordir yn amgylchedd deinamig sydd yn denu nifer sylweddol o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn.

4.2 Gellir crynhoi trefniadau rheoli traethau presennol mewn tair brif agwedd sy'n cyd-blethu, a caiff rhain eu hystyried yn eu tro:

A. Asesiadau Risg a mesurau lliniaru risgiau
B. Cofrestru a rheoli gweithgareddau
C. Hyrwyddo diogelwch traethau a gwybodaeth

**<u>A : Asesiadau Risg a mesurau lliniaru risgiau</u>**

4.3 Mae'r Gwasanaeth Morwrol yn paratoi Asesiad Risg penodol ar gyfer pob traeth sydd o dan ei reolaeth neu berchnogaeth. Mae'r Asesiadau Risg yn ymgorffori gwybodaeth am brif nodweddion y traethau, gwybodaeth am beryglon, math o risgiau cysylltiedig, ynghyd â mesurau perthnasol ac ymarferol ar gyfer lliniaru'r risgiau.

4.4 Wrth geisio adnabod ac ystyried trefniadau ar gyfer wahanol fathau o draethau, ceir nifer o ystyriaethau sydd yn dylanwadu ar wahanol agweddau o gyfrifoldeb, lefel risgiau a dwysedd mesurau rheolaeth ar gyfer lleoliadau penodol. Mae enghreifftiau o ffactorau sydd yn amrywio o leoliad i leoliad yn cynnwys cyfrifoldebau'r Cyngor Gwynedd am y safle (perchnogaeth / rheolaeth tir), nifer o ddefnyddwyr sy'n ymweld â'r traeth; ystod o wahanol ddefnyddwyr a gweithgareddau ar y traeth; a nodweddion mynediad a chyfleusterau lansio.

4.5 Mae trefniadau gweithredol ar gyfer rheoli traethau yn seiliedig ar fesurau lliniaru risg sydd wedi eu hadnabod o fewn yr Asesiadau Risg. Bydd y Gwasanaeth Morwrol yn penodi oddeutu 40 o wardeiniaid traeth tymhorol i gynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu mesurau diogelwch a threfniadau rheoli traethau. Mae dyletswyddau wardeiniaid a'r ystod o fesurau diogelwch yn eang iawn, ac yn cynnwys:

- Darparu cyngor a gwybodaeth i ddefnyddwyr traeth am risgiau lleol a'u hysbysu am wybodaeth tywydd a llanw.
- Darpariaeth taflenni, arwyddion diogelwch a hysbysfyrddau (mae arwyddion diogelwch ar ein traethau wedi eu paratoi ar y cyd gyda'r RNLI)
- Lleoli bwiau traeth ar draethau gydag ardaloedd lansio penodol ac ardaloedd gwaharddedig neu ardaloedd ble mae cyfyngiad cyflymder i fadau pŵer.
- Darparu gwasanaeth cymorth cyntaf ar gyfer man anafiadau a galw am gymorth gan y gwasanaethau brys yn unol â'r gofyn.
- Goruchwylio symudiadau cerbydau a rheoli mynediad cerbydol i draethau drwy gloi rhwystrau (os yn berthnasol i'r lleoliad).
- Cynnal patrols rheolaidd er mwyn goruchwylio gweithgareddau ar y traeth.
- Goruchwylio gweithgareddau dŵr a gorfodi rheolau mordwyo drwy batrolio prif draethau gyda chwch patrol neu fadau dŵr personol y Gwasanaeth.
- Sicrhau fod gweithgareddau ar y traeth yn cydymffurfio gyda is-ddeddfau, neu reoliadau eraill (yn cynnwys parth gwahardd cŵn)

- Cynnal ac archwilio offer diogelwch ar y traeth (yn cynnwys nofdorchau a ffonau argyfwng)
- Clirio mynedfeydd ac llithrfeydd er sicrhau mynediad hygyrch i ddefnyddwyr
- Ymgymryd ag unrhyw waith cynnal a chadw fel bydd angen

4.6 Bydd wardeiniaid traeth hefyd yn cynorthwyo gyda threfniadau'r Gwasanaeth ar gyfer cofrestru gweithgareddau ar y traethau.

**B: Cofrestru a rheoli gweithgareddau**

4.7 Rhaid cofrestru pob cwch bŵer neu bad dŵr personol (jet-ski) gyda Chyngor Gwynedd cyn defnyddio neu'n croesi rhan o'r arfordir sy'n eiddo, neu o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Cyn cofrestru neu adnewyddu hawlen, rhaid i ymgeiswyr ddarllen ac arwyddo derbyn 'Rheolau llestr / bad pŵer ym mhorthladdoedd ac ar arfordir Gwynedd'; a chadarnhau fod y llestr wedi ei yswirio hyd at £3 miliwn trydydd parti. Mae ffi ddyddiol ar gyfer lansio o draethau neu lithrfeydd cyhoeddus Gwynedd. Fel dewis arall mae modd prynu hawlen lansio flynyddol (sy'n cynnwys ffi cofrestru) sydd yn caniatáu lansio heb dalu'r ffi lansio ddyddiol.

4.8 Mae copi o Reolau llestr / bad pŵer Gwynedd wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

4.9 Hefyd, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli gweithgareddau ar yr arfordir gan gynnwys

- Ceisiadau am gynnal digwyddiadau - Gofynnir i drefnwyr digwyddiadau sydd yn dymuno defnyddio traeth (neu ran o'r arfordir) i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Morwrol er mwyn ystyried ceisiadau am ddigwyddiadau. Bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth ystyried trefniadau diogelwch ac amwynderau a defnyddwr eraill cyn gellir rhyddhau trwydded defnydd tir. Ar gyfer digwyddiadau ble mae disgwyl mwy na 500 o bob i fynychu, bydd y Gwasanaeth yn annog yn gryf i'r trefnwyr gofrestru'r digwyddiad gyda Grŵp Iechyd a Diogelwch Gwynedd (SAG).
- Ceisiadau gan gwmnïau teledu i ffilmio ar draethau - gofynnir i gwmnïau cyflwyno ceisiadau o'r fath i'r Gwasanaeth Morwrol. Yn aml, bydd ceisiadau o'r fath yn cynnig cyfloed i godi proffil yr ardal ond bydd hefyd angen ystyried trefniadau diogelwch ac amwynder trigolion a defnyddwyr eraill.
- Trefniadau Glanhau Traethau – fel rhan o'u dyletswyddau mae Swyddogion Traeth, gan gynnwys Wardeiniaid Tymhorol, yn casglu sbwriel yn ddyddiol oddi ar draethau dynodedig yn ystod prif dymor yr haf. Mae'r Gwasanaeth yn cynnal adolygiad blynyddol gyda'r Adran Fwrdeistrefol ac yn cytuno ar drefniadau a chost gwasanaeth gwagio biniau sbwriel a biniau ailgylch a ddarperir ar gyfer y tymor ymdrochi. Mae'r cyfnod gwagio biniau yn cychwyn ar y 1af o Ebrill hyd at y 30ain o Fedi. Nid yw traethau yn derbyn gwasanaeth glanhau yn ystod misoedd y gaeaf. Mae prif swyddogion y gwasanaeth wedi eu hawdurdodi i gyflwyno dirwyon cosb i unigolion sydd yn methu a gwaredu a'u sbwriel neu sydd yn tipio'n anghyfreithlon.
- Ymateb i achosion o lygredd - mae'r gwasanaeth gyda threfniadau mewn llaw ar gyfer ymateb i lygredd. Mae'r gwasanaeth gyda darpariaeth briodol er ymateb i achosion olew palmwydd a chynhwysyddion amheus, ac mae prif swyddogion y gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant priodol i ymdrin ag achosion o'r fath. Mae nifer achosion yn codi ble mae'r cyhoedd yn adrodd fod anifail wedi marw neu ar yr arfordir. Mae'r gwasanaeth yn anelu i waredu'r corff oddi fewn cyfnod rhesymol os

yw yn bosibl cael mynediad at yr anifail. Mae’r Gwasanaeth hefyd yn cydweithio gyda mudiadau arbenigol i ymdrin ag unrhyw anifail byw sydd wedi’i ddarganfod wedi’i anafu ar draeth.

- Consesiynau Masnachol – mae’r Gwasanaeth Morwrol yn hysbysebu a gwahodd cynigion masnachol am gonsesiynau masnachol neu yn ystyried ceisiadau unigol drwy ymgynghori ar geisiadau unigol gyda’r Aelod Lleol a'r Cyngor Cymuned/Tref leol. Mae consesiwn yn cynnwys llecynnau tir ar nifer draethau. Ble yn briodol, bydd y tendr am y consesiwn yn cael eu hysbysebu pob 5 mlynedd.
- Tywydd Garw – mae’r Gwasanaeth yn ymateb yn unol â’r gofyn mewn achosion ble mae’r rhagolygon tywydd yn eithafol. Mae trefniadau mewn lle i gau a chodi rhwystrau llanw uchel mewn sawl traeth ar hyd yr arfordir ac mae trefniadau mewn lle i atal mynediad cyhoeddus i draethau pe byddai pryder am ddiogelwch defnyddwyr.
- Meinciau Coffaol – mae’r gwasanaeth yn derbyn nifer fawr o geisiadau yn flynyddol ar gyfer lleoli meinciau coffaol ar draethau. Mae nifer o gytundebau eisoes ar waith i leoli a chynnal meinciau coffaol.
- Gwirfoddolwyr - mae'r gwasanaeth yn gweithio yn agos gyda gwirfoddolwyr ar draws y sir i gynnal ymgyrchoedd glanhau traethau. Mae’r Cyngor yn rhoi benthyg offer casglu sbwriel ac yn gwaredu’r holl ddeunydd a gesglir gan wirfoddolwyr.
- Cydweithio gyda chwmnïau / mudiadau allanol - Mae’r gwasanaeth yn cydweithio gyda pherchnogion traeth i liniaru risgiau. Mae'r Gwasanaeth yn lleoli bwiau parthau cyflymder ac ardaloedd lansio ar y safleoedd a chodir ffi am y ddarpariaeth yma.

**C : Ymgyrch Diogelwch Traethau Gwynedd**

4.10 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’r Cyngor hefyd wedi datblygu ymgyrch penodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o beryglon yr arfordir ac hybu ymddygiad diogel a chyfrol.

4.11 Mae’r ymgyrch yn seiliedig ar godi ymwybyddiaeth o beryglon yr arfodir, ac cynnwys prif negeseuon allai leihau nifer helaeth o ddamwainiau ar arfordir Gwynedd.

***PRIF NEGESEUON***

- ***Paratowch a byddwch gyda chynllun - edrychwch ar ragolygon tywydd, amseroedd llanw a darllenwch arwyddion a rhybuddion lleol***
- ***Cadwch lygaid gofalus ar eich teulu - ar y traeth ac yn y dwr***
- ***Peidiwch â gadael i aelod o’ch teulu nofio neu ymdrochi ar ben eu hunain***
- ***Peidiwch â defnyddio offer enchwythu heb fod cortyn diogelwch wedi ei angori i’r lan. Gwisgwch siaced arnofio os na ydych yn nofiwr cryf***
- ***Peidiwch â nofio neu fentro i’r môr ble mae baner goch neu unrhyw arwydd arall yn cynghori yn erbyn nofio yn cael ei arddangos. Cymerwch sylw bob amser o arwyddion a rhybuddion lleol***
- ***Mewn argyfwng ffoniwch 999 a gofyn am Wylwyr y Glannau***

4.12 Mae’r Ymgyrch Diogelwch Traethau Gwynedd yn cynnwys 4 pecyn gwaith sef

i) Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol (yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i’r wasg, fideos wardeiniaid traeth ar waith)

ii) Cyfathrebu negeseuon diogelwch ar safleoedd / traethau penodol (yn cynnwys taflenni gwybodaeth traeth)
iii) Negeseuon / marchnata twristiaeth gan weithio gyda'r Uned Dwristiaeth a rhannu negeseuon mwyniant diogel yr arfordir drwy blatfform Eryri Mynyddoedd ac Môr)
iv) Darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o fewn y gymuned fusnes (yn cynnwys rhannu gwybodaeth gan ddefnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau gyda busnesau lleol.

4.13 Fel rhan o'r ffrwd gwaith cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi cydweithio gyda'r Uned Gyfathrebu Gorfforaethol ar gynllun i greu cymeriadau arfordirol yn cynnwys dolffin, seren fôr ac octopws. Mae gwisgoedd pwrpasol ar gyfer y cymeriadau hyn, ac mae staff y Gwasanaeth yn ymweld ag ysgolion lleol, ac yn trefnu presenoldeb ar y traethau er mwyn hyrwyddo diogelwch traethau ymysg plant a theuluoedd.

## 5. CYLLIDEBAU RHEOLI TRAETHAU

5.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae newidiadau sylweddol wedi bod yng nghyllidebau Rheoli Traethau'r Gwasanaeth Morwrol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau aruthrol ar gyllidebau'r Cyngor, ac ymateb y Gwasanaeth i adnabod a gweithredu arbedion effeithiolrwydd.

5.2 Mae Tabl 1 isod yn dangos crynodeb o gyllidebau rheoli traethau ar gyfer y cyfnod 2016/7 i 2023/24.

Tabl 1: Crynodeb o Gyllidebau Rheoli Traethau, Gwasaneth Morwrol

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | £149,020 | £148,140 | £157,920 | £164,540 | £170,250 | £175,030 | £245,420 | £349,760 |
| Eiddo | £40,660 | £36,770 | £39,400 | £40,520 | £41,200 | £41,770 | £43,200 | £46,910 |
| Cludiant | £24,350 | £17,800 | £17,160 | £18,160 | £18,580 | £18,330 | £20,740 | £23,460 |
| Cyflenwadau | £12,010 | £22,820 | £34,290 | £35,220 | £29,460 | £29,870 | £113,290 | £77,480 |
| Ad-daliaD Mewnol | £112,260 | £112,920 | £109,640 | £112,630 | £115,010 | £116,500 | £120,560 | £129,620 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£338,300** | **£338,450** | **£358,410** | **£371,070** | **£374,500** | **£381,500** | **£543,210** | **£627,230** |
| | | | | | | | | |
| **Incwm** | **£200,380** | **-£210,160** | **-£216,800** | **-£280,960** | **-£325,930** | **-£326,030** | **-£470,660** | **-£580,020** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Net** | **£137,920** | **£128,290** | **£141,610** | **£90,110** | **£48,570** | **£55,470** | **£72,550** | **£47,210** |

5.3 Mae'r prif newidiadau yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

- Mae cyllideb net (sef cost i'r Cyngor) wedi lleihau o £137,920 yn 2016/17 i £47.210 yn 2023/24
- Mae targed incwm y Gwasanaeth wedi cynyddu o £200,380 yn 2016/7 i £580,020 yn ystod 2023/24. Mae hyn wedi golygu cynyddu ffioedd yn cynnwys ffioedd cofrestru, ffioedd lansio a ffioedd mynediad/parcio traethau megis Morfa Bychan ac Abersoch; ac yn cynnwys consesiynau traeth (megis gwerthu hufen ia),
- Mae cyllideb ar gyfer costau gweithwyr wedi cynyddu ar gyfer 2022/23 a 2023/24 yn sgil cynnydd mewn prysurdeb ar yr arfordir. Mae hyn wedi golygu cynyddu nifer o staff traethau a wardeiniaid ac ymestyn cyfnod cyflogaeth staff tymhorol.

5.4 Er gwaethaf y cynnydd incwm a gynhyrchir gan y Gwasanaeth, mae'n bwysig nodi fod yr incwm yma wedi ei ymrwymo i gyfarch y gyllideb a strategaeth ariannol y Cyngor; yn hytrach na adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth.

5.5 Ystyrir fod cyllidebau rheoli traethau yn eithriadol dynn, ac yn ddibynnol ar gwrdd targed incwm heriol. Search hynny, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio adnabod cyfloedd i gynyddu incwm a thrwy hynny gyfrannu at leihau gwariant net tra'n gwarchod darpariaethau a gwasanaethau ar y tir.

## 6. DATA RHEOLAETHOL A RHEOLI PERFFORMIAD

6.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi adnabod ac yn casglu data rheolaeth a rheoli perfformiad. Mae'r data sydd yn berthnasol i swyddogaethau rheoli traethau yn cynnwys:

| | **Data / Mesurydidon** | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| i | Nifer o Gychod Pŵer / Badau Dwr Personol wedi eu trwyddedu | 1,680 | 2,434 | 2,509 |
| ii | % Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd ('Boddhaol' 'Da' neu 'Da iawn') | - | - | 75% |
| iii | Achosion Cymorth Cyntaf | 180 | 197 | 85 |
| iv | Nifer Plant Colledig | 59 | 95 | 35 |
| v | Nifer o ddamweiniau difrifol | 4 | 2 | 3 |
| vi | Nifer o ddamweiniau angheuol | 2 | 0 | 0 |
| vii | Nifer o ddamweiniau mae staff wedi delio ag | 41 | 26 | 42 |

6.2 Yn ystod eleni, bu i'r Gwasanaeth Morwrol sefydlu trefniadau ar gyfer casglu adborth a sylwadau am y gwasanaeth rheoli traethau. Mae arwyddion 'QR' wedi eu gosod mewn lleoliadau ym mhob traeth lle gellir cyflwyno adborth am ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ddefnyddiol a bwriedir adeiladau ar y trefniadau hyn i'r dyfodol.

6.3 Roedd canran boddhad cwsmer ar gyfer 2023 yn cynnwys Da iawn (59%), Da (16%), Boddhaol (12%), Gwael (7%), Gwael Iawn (5%) a Heb Ymateb (1%). Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am wardeiniaid traethau, am ddiogelwch y traethau ac yn benodol rheolaeth effeithiol o fadau pŵer, hygyrchedd, glendid ac ansawdd dŵr ymdrochi. O safbwynt sylwadau gan ddefnyddwyr nad oeddent yn fodlon nodwyd fod cŵn ar draethau yn broblemus, bod diffyg darpariaeth biniau sbwriel mewn rhai safleoedd a bod angen gwella ansawdd glendid a chyflwr rhai toiledau cyhoeddus.

## 7 PRIF GYFLEOEDD A MATERION I'R DYFODOL

7.1 Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd newidiadau mewn amgylchiadau (gan gynnwys COVID) a chynnydd mwn prysurdeb ar y traethau a'r arfordir ac mae'r gwasanaeth wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau hyn. Mae uchelgais i geisio sicrhau gwelliannau parhaus er gwaethaf yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae'r isod wedi eu hadnabod fel cyfleoedd neu faterion sydd angen sylw pellach yn ystod y cyfnod 2023 - 2028:

a) Prydles Blaendraeth y Goron

Mae rhan health o brydlesi blaendraeth ar draws y Sir bellach dod i ddiwedd eu cyfnod, ond yn parhau ar drefniant 'cario drosodd'. Ystyrir fod cyfle i adolygu a diweddaru'r cytundebau presennol ac ystyried cytundeb cyfansawdd sirol gyda Stad y Goron

b) Datblygu Ymgyrchoedd Diogelwch Traethau ymhellach

Mae camau pwysig wedi eu gwneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan sefydlu rhaglen ymgyrch diogelwch traethau Gwynedd. Ystyrir fod cyfle i adeiladau ar hyn, gan ymestyn a datblygu'r ymgyrch dros y blynyddoedd nesaf.

c) Ystyried darpariaeth Achubwyr Bywyd mewn lleoliadau penodol

Nid yw'r Cyngor yn trefnu darpariaeth achubwyr bywyd ar hyn o bryd, a gobeithir y bydd cyfle i ystyried cyfleoedd i'r dyfodol yn arbennig ar gyfer lleoliadau megis Abermaw a Thywyn. Un model posib fyddai comisiynu'r RNLI i ddarparu gwasanaeth o'r fath drwy gytundeb. Fel arfer, bydd awdurdodau lleol sy'n comisiynu'r ddarpariaeth yn talu ffi am wneud hynny, allai fod rhwng £20k a £30k y traeth (yn dibynnu ar y cyfnod dan sylw, oriau, nifer o staff ac ati). Mae'r cysyniad o Dreth Twristiaeth wedi codi yn ddiweddar, ac efallai y byddai trefniant o'r fath yn fodd o adnabod cyllidebau ychwanegol er mwyn ymestyn darpariaeth bresennol. Yma yng Ngwynedd, mae Grwp Twrisiaeth wedi ei sefydlu y ddiweddar er mwyn ystyried cyfloedd a blaenoriaethau posibl ynghlwm a threth o'r fath.

d) Gwobrau Traeth Baneri Glas

Bellach, mae canllawiau gwobrau Baneri Glas yn nodi fod angen asesiad annibynnol er mwyn ystyried darpariaeth achubwyr bywyd, ac yn hyn o beth nad yw asesiadau risg y Cyngor mwyach yn gymwys.

Mae newidiadau diweddar i ganllawiau Gwobrau Baneri Glas wedi bod yn destun trafodaeth gyda awdurdodau lleol eraill Gogledd Orllewin Cymru. Amlygwyd pryderon fod gofynion cynyddol yn ddrud, yn feichus ac yn groes i drefniadau rheoli sefydledig, ac felly penderfynwyd na fydd Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn na Chyngor Conwy yn cyflwyno ceisiadau eleni. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi dathlu Gwobrau Baneri Glas yn ystod tair allan o'r bedair mlynedd ddiwethaf, ac er hynny, mae ein traethau wedi bod ymysg y prysuraf erioed. Yn unol â thueddiadau eraill o fewn yr economi ymweld, mae'n bosib y byddwn yn rhoi mwy o sylw i godi ymwybyddiaeth a hybu ymddygiad diogel a chyfrol o'r arfordir yn hytrach na gweithgaredd marchnata traddodiadol.

e) Is-ddeddfau Traethau Gwynedd

Fel y gwelir o ran 2.3 o'r adroddiad, mae rhan helaeth o Is-ddeddfau traethau Gwynedd yn dyddio o'r 1980au. Ystyrir byddai cyfle ar gyfer adolygu a diweddaru Is-ddeddfau perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i bwrpas ar gyfer rheoli gweithgareddau ar ein traethau. Rhagwelir y byddai hyn yn waith sylweddol ac y byddai angen adnodd pwrpasol ac ychwanegol ar gyfer ymgymryd â'r dasg. Rydym wedi gweld

cynnydd yn y dechnoleg newydd sydd yn cael eu defnyddio ar yr arfordir dros y blynyddoedd diwethaf, megis defnyddio dronau, hofranlongau ac 'hydroffoilio' ac ar hyn o bryd nid oes polisi corfforaethol mewn lle ran rheoli eu defnydd ar dir y Cyngor.

f) <u>Mynediad a Chydraddoldeb</u>

Bydd y Gwasaneth yn paratoi Asesiad Cydraddoldeb ar gyfer mynediad i draethau, gan ystyried cyfleoedd i wella ac ymestyn cyfleusterau. Ar gyfer tymor 2024 mae bwriad hefyd o ddarparu cadeiriau olwyn arbenigol mewn rhai traethau a'r gwaith paratoi yn digwydd ar hyn o bryd.

ff) <u>Cynllun Economi Ymweld</u>

Mae traethau Gwynedd yn denu miloedd o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cyfrannu at weithgaredd economaidd lleol. Cafodd traethau eu hadnabod fel asedau mewn nifer o ardaloedd arfordirol fel rhan o waith Ardal Ni 2035, ac ystyrir fod cyfle i gyfrannu at Cynllun Economi Ymweld newydd Gwynedd. Rhagwelir y bydd cyfle i ymgorffori'r cyfleusterau traethau o fewn cynlluniau cyrchfannau lleol.

**8 DIWEDDGLO AC ARGYMHELLIAD**

8.1 Mae'r arfordir yn rhan bwysig o fywyd yng Ngwynedd, ac yn cynnig adnoddau pwysig ar gyfer defnydd hamdden, cefnogi'r economi leol, gwella llesiant trigolion Gwynedd ac sydd ac wedi cyfrannu ar hanes, diwylliant a hunaniaeth cymunedau arfordirol.

8.2 Mae arfordir Gwynedd yn ymestyn tua 300km ac yn cynnig adnoddau a chyfleusterau sydd yn denu miloedd o ddefnyddwyr ac ymwelwyr bob blwyddyn. Mae swyddogaethau 'rheoli traethau' hefyd yn gymhleth ac yn eang iawn, gyda nodweddion traethau unigol yn amrywio o leoliad i leoliad.

8.3 Mae Cyngor Gwynedd yn darparu swyddogaethau rheoli traethau drwy'r Gwasaneth Morwrol. Mae'r adroddiad yn amlinellu prif drefniadau'r Gwasanaeth, sydd wedi eu datblygu er mwyn cynnig mynediad cyhoeddus a diogel i draethau ac adnoddau arfordirol, ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr a thrwy hynny hwyluso gweithgareddau i hybu'r economi leol a chyfrannu at lesiant ein cymunedau.

8.4 Argymhellir

(i) Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i graffu'r trefniadau ar gyfer rheoli traethau yng Ngwynedd

**ATODIADAU:**

Atodiad 1 : Rheolau llestr / bad pŵer Gwynedd

# <u>ATODIAD 1 : Rheolau llestr / bad pŵer ym mhorthladdoedd ac ar arfordir Gwynedd</u>

**1.** Mae'n hanfodol fod pob Cwch Pŵer neu Fad Dŵr Personol sydd yn defnyddio, neu groesi rhan o'r arfordir sydd mewn eiddo, neu reolaeth Cyngor Gwynedd, wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd. Mae angen i lestrau llai na 10hp gofrestru.

1.1 Mae ffi cofrestru yn daladwy, ac mae'n rhaid cadarnhau yswiriant dilys trydydd parti, Isafswm £3 miliwn.

1.2 Mae'n orfodol fod yr Hawlen Cofrestru yn cael eu harddangos mewn safle amlwg a gweladwy ar ochr port a starbord y llestr uwchben y llinell dŵr. Ni chaniateir unrhyw rifau cofrestru eraill. Ni chaniateir lansio pe na fydd yr hawlen yn cael ei arddangos.

1.3 Ni chaiff defnyddwyr Cychod Pŵer neu Badau Dŵr awdurdod i lansio ar unrhyw draeth neu harbwr pe na fyddai'r perchennog wedi cofrestru'r llestr gyda Chyngor Gwynedd, neu os yw ei gofrestriad wedi'i ddiddymu.

1.4 Rhaid talu ffi lansio ar bob safle lansio.

**2.** **<u>Gofynion Oed:</u>**

2.1 Rhaid bod o leiaf yn 18 oed cyn defnyddio Cwch Pŵer neu Fad Dŵr Personol heb gymhwyster.

2.2 Rhaid bod o leiaf yn 15 i 17 oed gyda Thystysgrif Cymhwysedd G.H.F. ar gyfer Badau Dŵr neu dystysgrif Cwch Pŵer Lefel Dau, ar gyfer mordwyo Bad Dŵr Personol neu Gwch Pŵer heb oruchwyliaeth. Dylai'r tystysgrifau fod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg.

2.3 Rhaid bod yn 12 i 14 oed, gyda thystysgrif cymhwysedd G.H.F. ar gyfer Badau Dŵr neu dystysgrif Gwch Pŵer Lefel Dau cyn y caniateir mordwyo o dan arolygaeth uniongyrchol oedolyn. Diffiniad 'Goruchwyliaeth' yw mae'n hanfodol y bod yna oedolyn fel a fydd wedi ei ddifynio yn 2.1 uchod, ar **fwrdd y llestr** drwy'r adeg.

2.4 Dan 12 oed – ddim i lywio Cwch Pŵer neu Fad Dŵr Personol ar unrhyw adeg.

**3.** **<u>Cyfyngiadau Cyflymdra:</u>**

3.1 Cyflymdra di-drochion o fewn **50 metr** o fad dŵr arall, cwch, doc, nofiwr, sgïwr, pysgotwr, offer pysgota, neu'r lan.

3.2 Rhaid cydymffurfio â chyfyngiadau cyflymdra Cyngor Gwynedd mewn ardaloedd dynodedig. Lle nad oes cyfyngiad cyflymdra penodedig, y cyflymdra uchaf yw **<u>4 MILLTIR FOR</u>**, oddi fewn 100m i'r draethlin (o fan is y llanw) ac o fewn unrhyw harbwr.

3.3 Mae yn anghyfreithlon mordwyo llestr/ bad pŵer mewn ardaloedd gwaharddedig.

3.4 Gwaherddir badau a weithredir gan bŵer rhag mynd ar unrhyw barth diogelwch traeth oni bai y defnyddir ardal lansio penodol ar gyflymder cyfyngedig.

**4.** Ni chaniateir mordwyo dan ddylanwad diod alcohol neu gyffuriau.

**5.** **<u>Mae yn drosedd i aflonyddu bywyd gwyllt</u>**. Ni chaniateir aflonyddu dolffiniaid, llamidyddion, siarcod neu unrhyw fath o fywyd gwyllt.

**6.** Daw perchnogion a cherbydau a chychod i'r man lansio **ar eu cyfrifoldeb eu hunain**. Rhaid i berchnogion sicrhau fod yr ardal lansio yn addas ar gyfer y gwch ac yn addas ar gyfer y cerbyd cyn lansio. Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau fod y tir ar amgylchiadau yn addas ar gyfer lansio neu adfer y gwch. Mae'n rhaid glynu at gyfarwyddiadau Swyddogion y Cyngor.

**7.** Rhaid i gerbydau gadw at y cyfyngiad cyflymdra o **10MYA** ar y traeth.

**8.** Dylai ôl-gerbydau ond cael eu parcio yn y safle dynodedig. Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau fod yr ôl-gerbyd ag unrhyw gyfarpar wedi eu parcio'n ddiogel.

**9.** Anogir defnyddio badau pŵer mewn ffordd gyfrifol bob amser – byddwch yn ystyriol o eraill. Mae'n rhaid cydymffurfio â **'Rheoliadau Rhyngwladol Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr'** bob amser.

**10.** Dylai llywiwr y llestr sicrhau fod y **'Killcord'** wedi ei gysylltu yn ddiogel i'r peiriant, ac mae'n orfodol dilyn argymhellion y cynhyrchwyr. Ni ddylai unrhyw lestr fod yn mordwyo os na fydd y cortyn wedi ei gysylltu yn gywir. Mae'n orfodol fod yr adlyn **'Killcord'** yn cael ei arddangos ar y llestr drwy'r amser.

**11.** Ni chaniateir sgïo ar y dŵr heb arsyllwr annibynnol. Ni chaniateir tynnu neu lusgo tegan gwynt oddi fewn i unrhyw harbwr, parth gwahardd cychod neu o fewn 100m o'r draethlin. Bydd lleiafrif o ddau unigolyn ar fwrdd unrhyw lestr fydd yn tynnu neu lusgo bob amser.

**12.** Caiff manylion unrhyw lestr sy'n arddangos trwyddedau ffug eu cyfeirio at yr Heddlu.

**BYDD TOCYN COFRESTRU'R PERCHENNOG / DEFNYDDIWR YN CAEL EI DDIDDYMU YN SYTH PE NA FYDD Y GWEITHREDWR YN CYDYMFFURFIO A RHEOLAU UCHOD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 9 Tachwedd 2023 |
| **TEITL** | Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ethol dau aelod i wasanaethu ar y grŵp tasg a gorffen |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yn dilyn derbyn cyflwyniad a diweddariad i Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20 Ebrill 2023, penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i sicrhau dealltwriaeth pellach ar y mater. Fel rhan o’r penderfyniad gwnaethpwyd cais i sicrhau cynrychiolwyr o’r Adran Addysg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fod yn bresennol i ateb rhai o’r pryderon.

2. Yn ogystal, penderfynwyd estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i fod yn rhan o’r grŵp tasg, gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor. Rhoddwyd cefnogaeth i hyn gan y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2023.

3. Mabwysiadodd y Pwyllgor Craffu Gofal brîff ar gyfer y gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2023. Mae’r brîff wedi ei gynnwys fel atodiad i’r adroddiad hwn.

4. Gall uchafswm o 5 aelod fod yn rhan o’r grŵp tasg a gorffen ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i’r aelodaeth gynnwys cynrychiolaeth gan ddim llai na dau grŵp gwleidyddol gwahanol.

5. Gan fod y gwaith yn pontio meysydd gwaith dau bwyllgor, mae tri chynrychiolydd o’r Pwyllgor Craffu Gofal yn aelodau o’r Grŵp Tasg, ac estynnir gwahoddiad i ddau aelod o’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i fod yn aelodau.

6. Mae e-bost wedi ei anfon at aelodau’r Pwyllgor yn eu hysbysu o’r gwahoddiad gan y Pwyllgor Craffu Gofal, gyda chyfle iddynt fynegi diddordeb mewn cynrychioli’r pwyllgor ar y Grŵp Tasg.

7. **Gofynnir i’r Pwyllgor ethol dau aelod i wasanaethu ar y grŵp tasg a gorffen.**

**GRŴP TASG A GORFFEN**
**CYNLLUN AWTISTIAETH**
BRÎFF

## Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?

Cyflwynwyd diweddariad ar Gynllun Awtistiaeth Gwynedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 20fed o Ebrill, 2023. Cyflwynwyd diweddariad ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen, gan gynnwys diweddariad staffio, camau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaethau. Yn ogystal, bu i'r Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Plant ac Oedolion gyflwyno blaenoriaethau'r 6 mis i ddod.

Cafwyd ymatebion i nifer o faterion a gododd yn ystod cyfarfod y pwyllgor, ond fe gododd rhai materion ychwanegol ynghylch profiad yr unigolyn wrth ddisgwyl diagnosis, rhwystredigaeth yn y gymuned ynghylch rhestrau aros am ddiagnosis a diffyg dealltwriaeth glir o'r gefnogaeth ar gael mewn ysgolion yn dilyn derbyn diagnosis.

Penderfynodd y pwyllgor eu bod yn awyddus i sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod y mater ymhellach gan wneud cais am sicrhau cynrychiolwyr o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd i fod yn bresennol i ateb rhai o'r pryderon. Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd gan fod y gwaith yn pontio meysydd y ddau bwyllgor.

Bwriad y gwaith yw sicrhau dealltwriaeth o weithrediad Cynllun Awtistiaeth Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd wrth ddisgwyl diagnosis, ac a oes unrhyw rwystrau wrth ddisgwyl diagnosis
- yn dilyn diagnosis, yn arbennig y gefnogaeth sydd ar gael i blant o fewn ein hysgolion, ac a oes unrhyw rhwystrau

## Camau i weithredu

- Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn y briff ac adnabod 3 Aelod i gymryd rhan. (21/09/2023)
- Gwahodd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (2 aelod) i gymryd rhan. Byddwn yn gohebu gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dros ebost yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Gofal ar 21/09, gan gadarnhau'r aelodaeth yn ffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 09/11/2023.
- Cynnal cyfarfod ar gyfer y 5 aelod gyda chynrychiolwyr o'r Adrannau Plant, Oedolion ac Addysg, a chynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd. (Union ddyddiad i'w gadarnhau yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid allweddol – rhagwelir diwedd 2023/cychwyn 2024)

- Adrodd nol i'r Pwyllgor Craffu Gofal – 1af o Chwefror 2024 (yn ddibynnol ar ddyddiad y cyfarfod uchod).

## Swyddogion allweddol

Cynhelir y cyfarfod i'r 5 aelod fydd wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y grŵp tasg a gorffen gyda'r swyddogion allweddol isod:

| ADRAN | SWYDDOG ALLWEDDOL |
|---|---|
| Plant | Aled Gibbard, Uwch Reolwr Gweithredol |
| Oedolion | Helen Fôn Owen, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu |
| Addysg | Delyth Gibbard, Uwch Athrawes Cyfathrebu a Rhyngweithio<br>Dr Einir Peters, Uwch Seicolegydd Addysgol ym maes Cyfathrebu a Rhyngweithio |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | I'w gadarnhau |